

PRINCIPAL

3 v Neu m 4 c.

BENNAU

Y GREFYDD

CHRISTIANOGOL,

A agorir fel y gallo y gwannaf
eu deall.

N

Gan T. G. Gweinidog yr Efengyl.

Joan 17. 3.

yn yw 'r Bywyd tragiwyddol, dy adnabod ti yr unig
wir Dduw, a'r bwn a anfonaist di Jesu Ghrift.

Ac a gyfieuthwyd gan W. J.

intiedig yn Llundain gan A. Maxwell i
Awdwr yn y flwyddyn 1676.

John J. Williams
Virginia Section 11
By Major Pease
John J. Williams

John J. Williams
Virginia Section 11



From the gift of
Prof F. N. Robinson



PRINCIPLAU neu BENNAU

Y

G R E F Y D D

G H R I S T I A N O G O L

Wedi eu Agor d.

Cwest. PWy ydyw gwneuthurwr pob peth?

Atteb. Duw. Gen. 1. Col. 1. 16.

Trwyddo ef y crewyd pob dim a'r ffyrdd y nefoedd, ac sydd ar y ddaiar.

Cwest. Beth ydyw Duw?

Atteb. Duw sydd Yspryd anfeidrol berfffeithrwydd.

Fe ddywedir fod Duw yn Yspryd. 1. Trwy nad, i arwyddocâu nad yw efe gorff, neu sylwedd defnyddiol. 2. Trwy Gyffonddeb cyffelybiaethol, gan fod Ysprydion yn fwyaf perffaith a rhagorol o'r holl bethau a greuwyd, maent yn gymmhwyfaf i osod allan yr anymgyffredol a'r aneirif Ddaw ir dalldwriaeth gwan a chyfng ynom ni.

Fe ddywedir fod Duw yn yspryd o berfffeithrwydd, neu yn yspryd perffaith; trwy hyany i gâu allan pob mât a'r ammherfffeithrwydd, ac i gynnwys i mewn pob mât o berfffeithrwydd a godidowgrwydd.

Prif-byngeian y ffydd Ghrifftianogol

Am ei fôd yn yspryd o anfeidrol berfseithrwydd, trwy hynny yr arwyddocceir nad oes dim mesnr na therfyn iw berfseithrwydd ef. Trwy yr hyn y didolir ef oddi-with yr Angylion gogoneddus, ac eneidiau y Sauct yn y nefoedd, y rhai er eu bôd yn ysprydion perffaith, etto mae terfyn iw perfseithrwydd hwynt : Ond perfseithrwydd Duw sydd tu hwnt i bob mesur, gan ei fod yn anfeidrol.

Cwest. Pa sawl Duw sydd ?

Atteb. Un'unig Dduw sydd. 1 Cor. 8.4. Nid oes un Duw arall onid un.

Cwest. Pa sawl person sydd yn y Duwdod ?

Atteb. Tri. Y Tâd, y mân, a'r yspryd glân.

Er nad oes ond un Duw mewn sylwedd a hanfod, etto mae tri pherson gwahanredol yn aros yn yr un Duwdod. Hyn sydd eglur oddiwrth Dystiolaeth Christ ei hun. *Mat. 28. 19. Lle mac yn rhoi gorchymwyn iw Apostolion i ddysgu yr holl Genbedloedd, ac iw bedyddio, yn enw'r Tâd, a'r Mân, a'r Ispryd glân.* Gwêl hefyd *1 Joan 5. 17.* Pod Duw yn un yn ei hanfod, ac etto yn dri yn ei berson, sydd Ddirgelwch ni ellir ei ddjrnad na'i amgyffred, etto a ddylid ei gredu, gan ei fod mor eglur wedi ei ddat-cuddio yn y Gair.

Cwest. Pa fodd ym mhellach y gosodir Duw a-lan yn y Gair ?

Atteb. 1. Trwy ei Briodoliasethau. 2. Trwy ei weithrednedd.

Priodoliaethau Duw ydyw rhyw ragoriaethau godidawg a roddir iddo ef: fel pan ddywedir ei fod yn dragwyddol, yn holl alluog, yn Drugarog, yn Gyfawn, &c.

Cwest. Pa sawl rhyw tydd o Briodoliaethau Duw ?

Atteb. Dau rwy. 1. Anghyfrannogol, 2. Cyfrannogol ?

Priodoliaethau anghyfrannogol ydynt y cyfryw ragoriaethau, ag fydd mor briodol i Duw yn unig, fel na allant mewn modd yn y byd eu priodoli a'u cyfrannu i neb arall. Megis Tragwyddoldeb, heb ddechreuaed; *Anghywedioldeb*, heb ddym newid ynddo; *Holl-ddigonol*, nid

yn unig iddo ei hun, ond i bawb eraill: *Holl-alluog*, abl. 1. wneuthur pob peth: *Holl-lanw*, yn bresennol ym mhob mann. Y rhai hyn a'r cyfryw ydynt ragoriaethau priodol i Dduw yn unig, ac ni ellir eu cyfrannu i un creadur.

Priodoliaethau cyfrannogol ydynt gyfryw ragoriaethau yn Nuw, a'r a gyfrennir i'r Creaduriaid hafyd; megis *Nerth*, *Doethineb*, *Sansteiddrwydd*, *cyflawnder*, &c. felly *Sampson* oedd wr nerthol, *Solomon* yn wr doeth, *Noah* yn wr cyflawn, &c. Etto mae gwahaniaeth mawr rhwng y Priodoliaethau cyfrannogol hyn, fel y maent yn Nuw, ac fel y maent yn y creadur!

1. Maent hwy yn wreiddiol yn Nuw, efe yw'r brif ffynnon o honynt eu gŷd, yr hwn sydd ganddo yr hyn sydd ganddo, ynddo ac o hono ei hun. Fal hyn yr holl briodoliaethau hyn yn Nuw ydynt ei wir hanfod ef.

2. Maent hwy eu gŷd yn Nuw yn anfeidrol, heb ddi-ben a therfyn. Mae efe yn anfeidrol mewn nerth, doethineb, Sainsteiddrwydd, cyflawnder, &c. Ond yn y creadur maent,

1. *Trwy Gyfranniad*, hwy a dderbyniant eu holl odi-dowgrwydd oddiwrth Dduw. *Beth sydd gennit ond a dderbyniest?* 1 Cor. 4. 7.

2. *Wrth fesur*. Nid oes gan y creadur sydd ganddo y godidowgrwydd mwyaf a goreu, ond mesur terfynedig. Eph. 4. 7.

Cwest. Tan ba bennau y gellir cynnhwys o gweithredoedd Duw?

Atteb. Tan Greadigaeth a Rhagluniaeth.

Cwest. Beth a ddeellir wrth gread Duw o bethau?

Atteb. Eu groneuthuriad hwy o ddiidol dd. fnyid.

Crëti ydyw rhoi hanfod i bethau ni bu erioed, a hynny o ddim. Y cyfryw wneuthuriad o bethau o ddim sydd briodol i Dduw; trwy hynny mae'r Arglwydd yn ei ddangos ei hun yn wir Dduw.

**Cwest.* Pa bethau a wnaeth Duw felly?

Atteb. Pob beth.

Hyn a ddywed yr Apostol yn eglur. Col. 1. 16. *Trwy*

iddo ef y creuwyd pob dim ar sydd yn y Nefoedd, ac sydd a'r y ddaiar, yn weledig, ac yn anweledig. Os dyfal-yfyrir godidowgrwydd llawer o greaduriaid, maintioli eraill, eu hamlder hwynt eu gyd ynghyd, rhaid ini addef fôd yr Arglwydd yn hyn yn ei ddangos ei hun yn wir yn Dduw; yr unig wir Dduw. Ni all neb arall waethur felly.

Cwest. Trwy ba beth y gwnaeth Duw 'r cwbl?

Attab. Trwy ei Air.

Gen. 1. 3, 6. Duw a ddywedodd, bydded goleuni, bydded y ffurfaen, ac felly bu. Ac Psal. 33. 6. Trwy Air yr Arglwydd y gwnaethbwyd petbau. Trwy Air Dum y deellir eglurháad o'i ewyllys ef. Canys ni ddywedir yn briodol fod Duw yn llefaru, ond a'r ddull dynol. Arfer dynion yn gyffredinol yw dangos eu meddwl a'u hewyllys trwy lefaru, neu ddywedyd. Pan eglurodd ac y datguddiodd Duw ei ewyllys am y pethau hyn a hyn i fôd, yn ebrwydd y buant; ac hwy a fuant felly fel y mynnai Duw iddynt fôd.

Cwest. Ym mha gyflwr y gwnaeth Duw bob peth?

Attab. Mewn cyflwr da iawn.

Yr Yspryd glân a ddengys yn eglur, ddarfod i Dduw a'r ddiwedd pob diwrnod, ddyfal edrych a'r yr holl waith a wnaethai, ac iddo ei gael yn dda iawn. Gen. 1. 4. 10, &c. Hyn sydd iw nodi i gyflawnhâu Duw oddiwrth yr holl ddrwg sydd yn y býd. Mae llawer o grêduriaid yr awron yn ddrwg; ond fel y gwnaeth Duw hwynt, nid felly yr oeddynt. Pôb drwg a ddaeth oddiwrth y treaduriaid.

Cwest. Ym mha beth y mae Rhagluniaeth Duw yn sefyll?

Attab. 1. Yn cynnal y creaduriaid. 2. Yn en-biawn-reoli hwynt.

Am gadw y Creaduriaid, oni bai fod Duw yn eu cynnal a'u cadw, hwy a ddiddymmid yn ebrwydd. O ran hyn y dywedir, Inddo ef yr ydym yn byw, yn ijjmud, ac yn býd. Act. 17. 28.

Cwest.

wedi eu begluro.

Cwest. Beth y mae Duw yn ei reoli trwy ei Ragluniaeth?

Atteb. *Yr holl bethau sydd, beth bynnag ydynt.*
Psal. 113. 6.

Mae Rhagluniaeth Duw yn gyhydedd a'i Greadigaeth; Fel y creuwyd pob peth gan Dduw, felly y trefnir pob peth ganddo ef: fel y pethau mawrion uchel yn y nefoedd uchaf, felly y pethau mwyaf a'r y ddaiar. (Dan. 2. 21. efe sydd yn symmud Brenhinoedd, ac yn gosod Brenhinoedd.) Ie y pethau lleiaf hefyd, megis lliw gwallei'n pennau. Mat. 5. 36.

Cwest. Beth yw y diben hwennw i'r hwn y mae Duw yn cyfarwyddo pob peth?

Atteb. 1. *Iw ogoiant ei bun.* 2. *I ddaioni eu blant.*

Gogeniant Duw ydyw 'r diben pennaf ac uchaf o'r cwbl. Hynny oedd yn ei olwg ef wrth wneuthur y cenduriaid: a hyunny mae yn edrych arno ym mhob peth a wneir, a'r néb rhyw amser mewn lle yn y byd.

Daioni eu blant ydyw 'r diben nesaf tan hynny. O ran yr hyn y dywedir, *Fod pob peth yn cýdweithio iddyn et daioni.* Rhuf. 8. 28.

Cwest. *Yn mha gyflwr y gwnaeth Duw ddýn a'r y cyntaf?*

Atteb. Mewn cyflwr da a happus iawn.

Gen. 1. 31. Fe ddywedir, *Wedi i Dduw wneuthur dýn, fe edrychodd a'r y cwbl a wnaeth ei, ac wele da iawn oedd.*

Cwest. *Yn mba beth y safai happusfrwydd a'yn, yn yr hwn y gwnaethbwyd ef a'r y cyntaf?*

Atteb. *Yn hyn, o ran ei wneuthur a'r ddewis Duw, yr hon oedd mewn perffaith wybodaeth, gwir Sanddiddwrwydd a chyflawnder.* Gen. 1. 26, 27. Col. 3. 10.

Yr oedd gan ddýn a'r y cyntaf wybodaeth o bob peth oedd angenrheidiol i ogoniant Duw, ac iw ddaioni ei hunan; ac a greuwyd hefyd yn Sandtaidd ac yn gyflawn, heb pechod.

Cwest. A-barhaodd dyn bob amser yn y cyflwr
happus, sanctaidd hwnnw?

Atteb. Na ddo: fe syrthiodd oddiwrtho, trwy dorri
gorchymmyn Duw, yn bwyta y ffrwyth gwahardde-
dig. Gen. 3. 3, &c.

Y pechod yn enwedigol oedd yn anufuddhâu i orchym-
myn Duw; yr hwn orchymmyn a roefei efe iddo i brofi
ei usudd-dod ef. Fe all llawer ysgafydd feddwl y pe-
chod hwn yn beth ysgafn, ac ynt ya barod i roi toster
yn erbyn Duw am gospi dŷn cymaint am fai cyn lleied.
Ond os edrychent a'r yr amryw bechodau cynnwysedig
yn y trofediad hwnnw, rhaid iddynt gydnabod ei fod
yn bechod tramawr. Canys,

1. Yr oedd ynddo *Angbrediniaeth*, am na chredent i air
Duw. Canys er i Dduw ddywedyd, yr dydd y brytiei o
hono, gan farw ti a fyddi farw. Gen. 2. 17. Etto ni chredent
y byddent feirw, ond ammeu a gwneuthur Cwestiwn
o hynny.

2. Yr oedd *Crediniaeth ynyd*, yn rhoi coel a'r ddiafol
fe ddywedasei Duw, *Gan farw y byddwch farw*; A Diafol
a ddywedodd, *Ni fyddwch farw ddim*. Etto y wraig, (a'r
Gŵr trwyddi hi) a goeliodd yn fwy i'r cythrael, Tâd y
celwydd; nag i Dduw, Tâd y gwirionedd.

3. *Balchder trahâus*, yn chwennych bôd fel Duwiau.
Canys pan ddywedodd Diafol, *Chwi a fyddwch fel Duwi-
au yn gwybod da a drwg*, yr oedd y fâth ymchwydd yn-
ddynt, ac y trofesdasant.

4. *Lladrad*. Canys hwy a gymerasant yr hyn nid oedd
eiddyat, ond trwy orchymmyn enwedigol a gadwesid
oddiwrthynt. Canys fe waharddasei Duw yn eglur iddynt
fwyta o'r pren hwnnw.

5. *Llofruddiaeth gwaedlyd*. Ein Rhieni cyntaf trwy fwy-
ta y ffrwyth gwaharddedig hwnnw, a ddygasant farwo-
laeth, nid yn unig arnynt eu hunain, ond hefyd a'r eu
holl heppil. Ie cymaint ac oedd ynddynt hwy, hwy
a'u taflasant eu hunain, a'u holl heppil i Dân usfferg.
Wrth hyn y gellwch farnu mor fawr oedd pechod ein
Rhieni cyntaf.

medi en begluro.

Cwest. Ydyw heppil Adda yn euog o'r pechod hwnnw?

Atteb. Ydyw: fe gyfrifir pechod Adda i'n holl beppil.

Trwy anufudd-dod un y gwnaeth y nod. Damer yn bechadariaid. Rhuf. 5. 19. Hynny yw, trwy drofodd Adda, y dym cyntaf, llawer, sef pawb a ddaeth oddiwrtho ef, ac a ddeuant, a gyfrifir ya gyflawn yn bechaduriaid.

Cwest. Pa todd y gall heppil Adda fod yn euog o'i bechod ef?

Atteb. 1. Adda yn y gorchmwl hwnnw oedd herson cyffredinol.

Nid oedd efe yn sefyll am dano ei hun * Nen'r hwn yn unig, ond am holl ddynol ryw. Efe oedd yn a oedd * Gynnyrcholwr mawr y Bîd, fel wyddoccau pan bechodd ef, ni a bechafsom eu gîd presennoldeb. ynddo ef, a chyd ag ef.

2. Ir oeddym ni oll yn Llymnan Adda pan bechodd ef.

Ac felly trwy ddeddf Cenhedliad ni a bechafsom ynddo ef, ac ynddo ef a hæddafsom ddamnedigaeth dragwyddol.

Cwest. Beth yw pechod yn gyffredinol?

Atteb. Anghyfraith [neu drofesiddiad y gyfraith] yw pechod.

Felly mae'r Apostol yn yspysu ac yn dangos beth ydyw. *I Job. 3. 4.* Y Gyfraith sydd eglurháad o ewyllys Duw, yn dangos beth a fynn ef i ddýn ei wneuthur, new bei-dio a'i wneuthur; am hynny trosseddu y Gyfraith ydyw digio Duw, a phechu yn erbyn ei ewyllys datguddiedig ef.

Cwest. Pa rywogaethau sydd o'r Pechod?

Atteb. Dan: Gwreiddiol a Gwneuthurol.

Cwest. Beth ydyw y pechod gwreiddiol?

Atteb. Y llŷgredigaeth honno o'n natur ni, yn yr hon yr ymddyier ac y genir pawb.

Y ffrwyth nesaf digyfrwng o Bechod Adda ydyw, *achos*

achos bennaf o'r holl bechodau eraill. Am hynny y gel-wir ef yn wreiddiol, oblegid ei fod yn wreiddin, neu ffynnon oddiwrth ba un y mae'r holl bechodau gwneuthurol yn tyfu ac yn tarddu. Am y llygredigaeth gwreiddiol hwn y dywaid *Dafydd* yn *Psal. 51.5.* *Wele mewm awwiredd am hunitwyd, ac mewm pechod y beicbiogodd fy mam arnaf.* Ni bu néb erioed a ddaeth oddiwrth *Adda* (ond Christ yn unig, yr hwn a genhedlwyd trwy yr Yspryd glân) yn rhydd oddiwrth y pechod hwn. Fel y derbyn pob creadur arall natur ac athrylith ei rywogaeth: fel hyn y llewod athrylith rheipus; Cwn athrylith gláidd; Felly plant dŷn pechadurus athrylith bechadurus; gogwyddiad gwreiddiol yn eu natur i bob math a'r bechod: yr hon a erys ynddynt tra fo'nt byw, a byth ni Iwryddiwrreiddir allan o neb tra fo yn aros yma ar y ddaiar. Yr hyn a ordeiniodd Duw felly yn ei ddoethineb,

1. Fel trwy hynny y gosynger, ac y cadwre hwynt oddiwrth falchder ysprydol.

2. I roddi iddynt achosion yn fynychach i fyned at Dduw mewn Gwedi am help a chymorth yn erbyn gwaith y llygredigaeth ynddynt.

Cwest. Beth yw pechod gwneuthurol?

Atteb. *Trofedd neillduol o Ddeddf Duw.*

Cwest. Pa sawl modd y fyrth dynion i bechodau gwneuthurol?

Atteb. 1. *Trwy esgenlso neu fod heb wneuthur y da mae Duw yn ei Air yn ei orchymmyn.*

2. *Trwy wneuthur y drwg bwnnw mae Duw yn ei Air yn ei warafus.*

3. *Trwy gyflawni yr hyn sydd dda mewm modd pechadurus.*

Y dledswyddau goreu a gymerom ni mewm llaw, a lygrir yn dramawr trwy eiu diffyg yn y modd o'u cyflawni.

Cwest. Beth yw cospedigaeth pechod?

Atteb. *Pob melldith a phla yn y byd bwn, marwalectb yny dimedd; medi bynnig posian trwynyddol yn nifern.*

uffern. Deut. 28.16,17. Rhuf. 6.23. 2 Thes. 1.8 9.

Cwest. A all neb ei waredu ei hun allan o'r cyflwr gofidus hwn y mae ynddo trwy bechod?

Atteb. Na all yn ddian.

2 Cor. 3.5. Nid ydym yn ddigonol o honom ein bunain i seddwl dim, megis o honom ein bunain. Llai o lawer y gallwn wneuthur dim o honom ein hunain, i'n gwaredu ein hunain oddiwrth y fath drueni mawr y dygodd pechod ni iddo. Meirw ydym mewn pechod. Eph. 2.1. Ac ni all dynion meirw eu codi eu hunain i fywyd.

Cwest. A all un creadur arall waredu dyn?

Atteb. Na all neb rhyw Greadur.

Psal. 49.7. Gan waredu ni wared neb ei frawd, ac ni all efe roddi iawn trofio i Dduw. Fe ellir cymhwyslo hyn at yr holl Greaduriaid yn y bŷd, at yr holl Sainct a'r Angylion yn y bŷd, ni all neb o honynt fôdd yn y bŷd waredu ei frawd. Fel o ran nerth dŷn ei hunan, neu o ran cymmorth oddiwrth un Creadur arall, nid oes dim ond achos i anobeithio.

Cwest. A oes dim modd i waredu dyn allan o'i gyflwr llygredig a thruan?

Atteb. Oes, Duw ei hun a roes i ddŷn Achubwr.

At. 5.31. Pan amlwgwyd yn eglur, nad allai neb a-chub, Duw ei hun a roes Achubwr, ac Iachawdr ini.

Cwest. Pwy ydyw Iachawdr dŷn?

Atteb. Jesu Ghrift.

I Tim. 1.15. Gwir yw'r gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Christ Jesu i'r bŷd i gadw pechaduriaid. Gair Hebreac yw Jesu, ac sydd yn arwyddocâu Iachawdr. Mae'r Angel, wrth roi'r enw hwn, yn rhoi rheswm am dano, Efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau. Math. 1.21.

Yr enw arall yw Christ, a gair Groec ydyw, yn arwyddocâu Eneiniog. Jesu sydd yn dangos ei fod ef yn Iachawdr. Christ yn Iachawdr nerthol, oblegid ei eneiniog, hynny yw, ei ofod o'r neilldu gan Dduw a'i lenwi a phob llawnder i waith ein prynedigaeth ni.

Cwest.

Cwest. Beth ydyw Jesu Christ.

Atteb. *Tragwyddol Fab Duw, yr hwn ynglyflawned yr amser a gymerodd natur dŷn arno.*

Efe a elwir unig-anedig Fâb Duw. Jo. 1. 14. Yr hyn sydd iw ddeall am ei genhediad tragwyddol anghwiliadwy, sydd in i ryfedau o'i blegid, ac nid iw fanwl chwilio allan.

Cwest. Pa ham yr oedd yn rhaid i Iachawdr dŷn fôd yn ddŷn?

Atteb. 1. *Yn gyffredinol fel y gallai ddiroddef a marw trws brynedigaeth dŷn.*

Heb. 9. 22. *Heb. ollwng gwaed nid oes dim maddeuant pebod.* Fel y gallai Christ gan hynny farw trosom, efe a gymerodd ein natur ni, canys yn Dduw ni allai mor marw.

2. *Fel y gallai yn yr un natur, a bechasei i ddigio Duw, fodloni cyflawnder Duw.*

Canys cyflawnder Duw a ofynnai wneuthur iawn yn yr un natur a bechasei. Gan i ddŷn gan hynny bechlu, angenrhaid oedd i ddŷn farw, i fodloni cyflawnder Duw, ac i lonyddn ei lîd ef. Ar yr hyn y dywed yr Apostol, *Gan fôd marwolaeth trwy ddŷn, trwy ddŷn befyd y mae adgyfodiad y meirw.* 1 Cor. 15. 21.

3. *Fel y gallai deimlo ein gwendid ni, ac felly trwy deimlad a phrofiad ddysgu tosturi a chyd-ddioddef a ni.*

Dyna y rheswm a rydd yr Apostol. Heb. 2. 16, 17. Efe a gymerodd hâd Abraham, fel y byddai drugarog, ac Archoffeiriad ffyddlon, hynny yw, fel y byddai drugarog fel y mae'r naill ddŷn ir llall. Ac yn Heb. 4. 15. *Nid oes ini Archoffeiriad, heb fedru cyd-ddioddef gyd a'n gwendid ni, ond wedi ei demtio ym m bob peth yr un ffynyd a ninnau, etto heb pebod.*

Cwest. Pa'm yr oedd yn rhaid i Iachawdr dŷn fôd hefyd yn Dduw?

Atteb. 1. *Fel y gallai fod yn abl a yn ddigonol i ddioddef yr hyn a gymerodd efe arno am bechyd dŷn.*

X baich

Y baich yr aeth efe tano, oedd digofaint yr anfeidrol Dduw, ac yr oedd yn rhaid wrth nerth Duw i ddioddef digofaint Duw. Fe fuasei i'r natur ddynol yn pallu gan drymbwys digofaint Duw, oni buasei i'r natur dduwiol ei chryfハウ a'i chynnal i fynu.

2. *Fel y gallai oresgyn holl elynion ein Iechydwri-aeth, a gorchfygu Satan, usfern a marwolaeth, yr byn ni's gallai un Creadur.*

Gan fôd Christ yn Dduw, Trwy ei farwolaeth fe oreb sygodd farwolaeth, a'r bîan oedd a nerth marwolaeth ganddo, hynny yw, *Diabol*. Heb. 2. 14.

3. *Fel y gallai ei ufuidd-dod a'i ddioddefaint ef fod o werth a phris anfeidrol.*

Yr hyn a wnaeth ufuidd-dod a marwolaeth Christ o'r fath werth anfeidrol, oedd, ei fod yn ufuidd-dod ac yn farwolaeth Mâb Duw, yr hwn oedd Dduw yn gystal a dŷn. Gan fôd y Duwdod yn un natur ym mherson ein Prynwr ni, yr oedd anfeidrol haeddiant yn canlyn ei berson ef, a'r cwbl a wnaeth efe ac a ddioddefodd trosom.

Yr hyn sydd yn wir sylfaen o ddiddanwch i'r holl bechaduriaid goftyngedig, teimladwy o'u pechodau, a'u trueni sydd ddyledus am danynt: Obligid fôd marwolaeth a dioddefaint Jesu Christ o anfeidrol werth a haeddiant, ym mhell uwchlaw haeddiant eu pechodau, gan eu bod yn farwolaeth a dioddefaint yr hwn oedd Dduw yn gystal a dŷn.

Cwest. Beth a wnaeth Christ tros ein Prynedi-gaeth ni?

Atteb. 1. *Efe a gyflawnodd yr ufuidd-dod hwnnw oedd ddyledus arnom ni i orchmyndion Duw.*

2. *Efe a ddioddefodd y gospedigaeth oedd ddyledus ini am ein pechodau.*

Y gyntaf a elwir ufuidd-dod gwneuthurol Christ; yr ail ei ufuidd-dod dioddefol ef.

Ufuidd-dod gwneuthurol Christ oedd yn llawn berffaith; canys efe a lwyd-gyflawnodd yr hyn oll yr oedd cyfraith Dduw yn ei ofyn; yr hyn y mae efe yn ei yspysu yn ei ymadrodd wrth *Ioan Fedyddiwr*, (Mat. 3.15.)

Gmeddus ini gyflawni pob cyflawnder. Ac fel yr ymostyn-godd Christ i'r Ddeddf, ac a'i cyflawnodd trosom ni, yn enillle ni, trwy'r hyn y pwrcasodd efe fywyd tragicydol a iechydwriaeth ini; felly hefyd y dioddefodd ef y gospedigaeth oedd ddyledus ini am ein pechodau, a thrwy hynny a'n gwaredodd oddiwrth farwolaeth ac uffern. Am hynny y dywed yr Apostol, (Eph. 1.7.) *Mae ini brynedigaeth trwy ei waed ef.* Hynny yw, trwy farwolaeth a dioddefaint gwaedlyd Iesu Ghrist y prynir (neu y gwaredir) ni oddiwrth ein holl bechodau. Etto ni ddeellir hyn felly, fel pettem ni wedi ein gwaredu oddiwrth y felldith trwy *ufudd-dod dioddefol* Christ, a'n gwneuthur yn etifeddion gogoniant trwy ei *ufudd-dod gwneuthurol ef*, ystyriedig yn wahanredol; ond trwy ei *ufudd-dod gwneuthurol* a dioddefol ef yn gyffyltedig, i'n gwaredir oddiwrth y felldith, ac y mae ini hawl breiniol i ogoniant.

Cwest. Pa swyddau a gymerodd Christ arno i'n gwneuthur ni yn gyfrannogion o'r Lleshâd sydd yn dysod oddiwrth yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd Christ?

Atteb. *Fe gymerodd Christ arno dair Swydd; fe aeth (a) yn Frenin, (b) yn Broffwyd, ac (c) yn Offiriaid.* (a) *Act. 5.31.* (b) *Deut. 18.18.* (c) *Psul.*

110. 4.

Cwest. Beth yw rhannau Swydd frenhinol Christ?

Atteb. 1. *Ireoli ei Eglwys.*

Mae rheolaeth Christ yn ei Eglwys mewn rhan *Oddiylan*, ac mewn rhan *Oddifewn*.

1. *Oddiylan*, trwy ei Air, yn yr hwn y datguddir ei Gyfreithiau ef. A thrwy ei Swyddwyr a'i Weinidogion, y rhai a ordeiniodd ef i sefyll yn ei le ef: ir rhai y rheddes efe nad yn unig air y Cymrod, ond hefyd gallu'r Agoriadau, neu Awdurdod i gyflawni ei Gyfreithiau a'i Ordinhhâdau ef.

2. *Oddifewn* mae Christ yn rheoli ei Eglwys trwy ei Yspryd, trwy yr hwn y mae yn gweithio mor nerthol a menynt, ac i beri iddynt yn ewyhysgar ymostwng iddo.

Atteb.

Atteb. 2. *I ddarparu tros ei Eglwys.*

Rhagddarpar Christ tros ei Eglwys sydd yn cyrrhaedd yd at bob peth angenrheidiol i'r enaid a'r corph, i'r bob bendith ysprydol a chorphorol. Efe a ddarpar fendifithion ysprydol i eneidiau ei aelodau, trwy eu cymnysgaeddu a phob rhadau iachusol angenrheidiol. Mae hefyd yn darpar bendithion amserol iw cyrph, cymrheillelled ac y gwelo ef yn dda iddynt. *T mae eisieu a newy a'r y llewod ieuaiingc, ond y sawl a geisiant yr Arglwydd, ni bydd arnynt eisieu dim daioni.* Psal. 34. 10.

Atteb. 3. *I amddiffyn ei Eglwys.*

Mae Christ yn amddiffyn ei Eglwys a'i aelodau rhag ei holl elynion. Ei gelynion sydd weledig ac anweledig. Ei gelynion gweledig yw pob math a'r ddynion drwg. Ei gelynion anweledig yw Diafol a'i Anghyliod. Naill a'i mae Christ yn rhwystro i'r gelynion hyn osod a'r ei Eglwys. Megis Gen. 35. 5. neu yn gwannhychu ac yn attal eu grym a'u nerth hwynt. 2 Sam. 3. 1. Neu yu gwaredu'r eiddo o'u crafangau hwynt. Exod. 14. 30. Neu yn destroywio eu gelynion. Megis, 2 Brenb. 19. 35.

Cwest. Beth yw gwaith pennaf Swydd Brophwydol Jesu Christ?

Atteb. *Dysgu ac hyfforddi ei Eglwys.*

Cwest. Pa todd y mae Christ yn dysgu ei Eglwys?

Atteb. 1. *Oddi Allan trwy ei Air.*

2. *Oddifewn trwy ei Yspryd.*

Yn gyntaf mae Christ yn dysgu ei Eglwys *Oddi Allan* trwy hyspysu ewyllys ei Dâd, yr hys a wnaeth a'i enau ei hun tra fu fyw ar y ddaiar. A thrwy ei Weinidogion a'r ôl ei Dderchafel i'r nesoedd, trwy ei Scrifenniadau a'u Pregethau.

2. Mae Christ yn dysgu ei Eglwys *oddifewn* trwy beri iw Yspryd gýd-weithio gyd a'r Weinidogaeth oddi Allan, (yr hon a ordëniodd efe) a'r eneidiau dynion. Christ yr awr hon a lefara yn y Gweinidogion, fel y gwnaeth yn *Paul* (2 Cor. 13. 3.) er nad yn yr un mesur, etto yn yr un modd. Felly yn a thrwy'r Ordinhabadau hynny a drefaodd efe yn ei Eglwys, mae efe yn goleuo y meddwl.

ddwl, yn meddalhau'r galon, yn diddanu'r gydwybod; ie yn gweithio ffydd, gobaith, cariad, amynedd, uffuddod newydd, a phob grâs arall angenrheidiol.

Cwest. Pa iannau sydd o Swydd Offeiriadol Christ?

Arteb. 1. Iawn bodlonol. 2. Cyfryngiad.

Y ddau hyn oedd gwaith pennaf yr Archoffeiriad tan Ddeddf. Un a wnae trwy offrymmu Aberth. A'r llall trwy syned i mewn i'r Cyffegr Sancteiddiolaf ag Arogl-darth. Y ddau hyn a gysylltir ac a gymhwysir at Ghrist. Rhuf. 8. 34. *Pwy yw'r hwn sydd yn damnio? Christ yw'r hwn a fu farw; ie yn hytrack yr hwn a gyfodwyd befyd, yr hwn sydd a'r ddeheulaw Duw, yr hwn befyd sydd yn erfyn trosom ni.* Yma y gwelwn Iawn a Chyfryngiad yn eiddo Christ. Iawn trwy ei farwolaeth, a Chyfryngiad a'r ei Adgyfodiad a'i eisteddiad a'r ddeheulaw Duw.

Yr oedd Aberth Christ a'r y Groes o'r fâth rinwedd nerthol, fel y llawn-fodlonwyd Cyflawander Duw, y llwyr-lonyddwyd ei ddig ef, ie ei wyneb a'i ffafri a brynwyd ini, a'r holl fendithion sydd yn canlyn a'r hynny. Am hynny y dywedir fod marwolaeth Christ yn Aberth i Dduw o arogl peraidd. Eph. 5. 2. A darfod pwrcau'r Eglwys trwy hynny. Act. 20. 28. Sef, oddiwrth yr holl gaethiwed yr oedd hi tano, megis, pechod, mell-dith y Ddeddf, Digofaint Duw, marwolaeth, Diafol a Damnedigaeth. Wedi i Ghrist offrymmu ei fywyd yn Aberth i Dduw, ac wedi iddo trwy hynny wneuthur Iawn am bechoda'u'r Eglwys, efe a gladdwyd, ac a oso-dwyd yn y Bêdd, i Sancteiddio y Bêdd iw holl aelodau. A'r trydydd dydd efe a gyfodwyd oddiwrth y Meirw. Fel y rhoddes ef ei hun ei fywyd i lawr, felly efe ei hun a'i cymerodd drachefn. Ac yno y derchafodd i'r nefoedd, yng i eiriol trosom ni, yr hyn yw'r ail rhan o'i Swydd offeiriadol. Y gyntaf oedd i wneuthur iawn, yr ail i gyfryngu trosom ni.

Fe ellir dywedyd fod Christ yn cyfryngu trosom ddwy ffordd.

1. Trwy ei fod yn ei gyflwyno ei hun trosom ni yn wastadol ger bron ei Dad: Christ, medd yr Apostol, *aeth*

deith i mewn i'r nefoedd, i ymddangos yn awr ger bron Duw trofom ni. Heb. 9. 24. Mae Christ yn ei gyflwyno ei hawl, eisiau haberthi ni, a'r lawn tros ein pechodau, gwaed pa un sydd yn eiriol ac yn dâdeu trofom gés bron ei Dâd.

Heb. 12. 24.

2. Trwy ddangos ei fôd ef yn ewyllysto fôd yf eiddo ef eu gŷd yn gyfrannogion o rinwedd a lleshâd ei Aberth ef. Joan. 17. 24. Y Tâd, y rhai a roddaiſt imi, yr alyf yn ewyllysto, lle yr alyf, fod o bonyt bwytbau befyd gyda mi, fel y gweolont fy ngogoniant a roddaiſt imi.

Y gaif Cyfryngiad sydd yn briodol yn arwyddoccau er-syniad tros un arall. F' a'i rhoddir i Ghrifl fel y mae ef yn awr yn y Nefoedd, trwy gyff'lybfaeth. Y gyff'lybfaeth a ellir ei chymeryd oddiwrth un a fo mewni ffaf mawr gyd a'r Brenin, yr hwn sydd yn wastad yn y llys, yngŵydd y Brenin, ac yno mae yn cyflwyno Dymuniad eu gyfeillion, ac yn eiriol am ei gyflawni. Mae Christ, sydd mewn ffafri mawr gyd a'r Arglwydd, yn sefyll o'i flaen ef yn wastadol i gyflwyno ein erfynion ni; ac i beri iddynt fôd yn gymeradwy.

Cwest. Pa fodd y mae Christ, a'r pethau a wnaeth ac a ddioddefodd ef, yn myned yn eiddom ni?

Atteb. Trwy ffydd.

Cwest. Beth ydyw ffydd?

Atteb. Gwir ffydd iachusol sydd ras a weithio ynom ni gan Tspryd Duw, trwy Weinidogaeth y Gair, trwy yr hyn yr ydym yn derbyn Christ, fel y cynnigir ef ini yn yr efengyl, ac yn pwyso arno ef yn unig am fymyd ac iechydwriaeth.

Yn gyntaf, meddaf, Gwir ffydd iachusol sydd ras a weithio ynom gan Tspryd Duw, trwy Weinidogaeth y Gair, oblegid hwnhw yw'r modd arferol, trwy ba un y mae Tspryd Duw yn gweithio ffydd yn eisn calonau. Gwir yw, y gall darllein yr ysgrythyrau, a llyfrau da, fod drwy fendith Dduw yn fodd i weithio ffydd; ond sicci iawn ydyw mai'r Môdd arferol ydyw'r Gair a breges ther. Rhuf. 10. 17. Ffydd sydd trwy glywed, a cklywed trwy Mîr Duw.

Canys yn gyntaf, y Ddeddf sy'n dangosani eis pecho-
dau, a'n cyflwr truan trwy hydny; ein bôd ni yn llwyr-
golledig yn o mien hunain, gan ein Bod ni yn euog, ac
yn haeddu pob math a'r farnau a phlau yn y byd hwn
a marwolaeth dragwyddol a damaedigaeth yn y byd a.
ddaw; a'n bôd ni hefyd yn llwyr-ddinerth i'n gwaredu
ein hunain o'n cyflwr truan, y darfu ini trwy ein pechad
ein taflu ein hunain, iddo.

Ac yno'r Efengyl a ddengys ini ddarsod i Jesu Christ,
(tragwyddol fab Duw) ynghywonder yr amser, ddysod
i'r byd, cymeryd ein natur ni arno, ac ynddi myned yn
sei hieu ini; ac fel ein meichieu ni, gymeryd ein holl
ddyled ni arno; a thrwy ei ufudd-ded, a llawndigol
Aberth ei gorff ei hun, a offrymmedd efe unwaith
a'r y Groes, wneuthur cyflawn iawn i gyflawnder Duw
am danynt.

Ie, yr Efengyl ym mhellach a ddengys, fod Duw yn-
dod ei yn cynnig grâs a chymmod, maddeuant pecho-
dau yma, a bywyd tragwyddol a'r ôl hyn i bawb a gred-
ant ynddo ef.

A'r gwirionedd hwn a ddatcuddir ini ym Mhregethiad
y Gair, mae Yspryd Duw oddifewn yn nerthol-weithio
yn o mawr i'r Gair uwchlaw pob peth, newyn a sy-
ched am dano, a llawn fwriad calon iw dderbyn ef me-
gis ein Iachawdr llwyr-ddigerol, ac i bwysio arno ef,
a'i haeddeditaethau ef yn unig am fywyd ac iechyd-
wriaeth.

Ac am hynny mae yn canlyn yn yr Eglurháad o'r
blaen, fod ffydd yo Rás, Trwy yr hen yr ym derbyn
Christ. Ac yn wir felly mae Christ yn myned yn eiddom
ni. Canys beth sydd fwy yn eiddom ni, na'r hyn a gyn-
nigir ini yn rhâd, ac a ddarsu i ninnau ei dderbyn.
Derbyn Christ ydyw'r un peth a chymeryd gafael arno, neu
ei gofleidio, a'i gymbwysio atom ein hunain. Ond mi a
ddewlais yn hytrach arfer y gair hwn Derbyn, oblegid
gair yr Yspryd glân ei hun ydyw. Joan. 1. 12. Cynnifer
ac a'i derbyniasani, fe ro: s iddynt allu i fod yn
feibion i Dduw, sef i'r sawl a gredant yn ei enw ef. Y
geiriau

geiriau diwedda, [*i'r sawl a gredant ynddo*] a chwanegir, i ddangos yn eglurach beth yw [*derbyn Christ*] sef credu ynddo. Pa ddau air a gymmwys gyffylltir ynghyd: *Credu* a chwanegir at dderbyn i ddangos beth yw *derbyn Christ*. **A** *derbyn* a chwanegir at *gredu*, i ddangos pa fâth ffydd yw honno, trwy ba un y mae Christ yn eiddom ni: Y cyfryw ffydd ydyw, ac sydd yn cymryd ac yn derbyn Christ a holl ffrwythau llesol ei farwolaeth a'i ddoddefaint.

Fe ganlyn yn yr eglurháad o'r blaen o ffydd, pa foddy mae ini dderbyna Christ, sef, fel y cynnigir ef yn yr Efengyl. Christ a gynnigir yn yr Efengyl yn ei holl Swyddau, megis Offetriad, Prophwyd a Brenin. Ac felly rhaid ini ei dderbyn ef, nid yn unig megis Offetriad, yr hwn a wnaeth iawn trosom ni, trwy ei farwolieth a'r y Groes, ac yr awron sydd yn eriadol trosom yn y Nefoedd: Ond hefyd mëgis eia Prophwyd, i gael cin dysgu a'n hyfforddi ganddo; ac h:fyd mëgis ein Brenin i gymeryd ein rheoli a'n Llywodraethu ganddo; a rhaid ini mor ewyllsgar ein tafu ein hunain wrth draed Christ mewn ymestyniadaid iddo, ac yn ei freichiau am iechydwrineth oddiwrtho: rhaid ini fod mor barod i was:naethu Iesu Ghrift, ac i gael ein hachub ganddo. Gan mai hyn oedd arfaeth Duw yn ein gwaredu ni o'n caethiwed ysgrydol, yn yr hwn yr oeddym wrth natur, sef, *Si was-naethu ef yn ddiofn, meron sancteiddrwydd a chyflawnder gar ei fron ef koll ddyddiau ein bywyd.*

Yn ofer gan hynny y mae'r heini yn eu twyllo eu huan, y rhai a ewyllysiant dderbyn Christ megis *Prynnwr*, ond nid fel *Rheolwr*; megis *Iachawdr*, nid megis *Arglwydd a Brenin*. Gwybydded y cyfryw, na fydd Christ yn Iachawdr i neb, a'r nid yw yn Arglwydd a'c yn Frenin iddynt. Ei ddeiliaid yn unig a achub ef, ac nid neb arall; canys ni ranna ef mo'i *Swyddau*.

Yn y lle diweddaf y dywedir, *A phwys arno ef yn unig am faddeuar: peichod yma, ac am fywyd ac iechydwr aerli dragwyddol a'r bl hyn.* Y pwys hwn a osodir allan yn yr Ysgrythur trwy amryw ymadroeddion, megis gobeniwr ynglwmji Eph. 1. 12. *Pwys a'r Ghrifft.* Can. 8. 5. *Imddiriel y Nghrifft.* Isa. 50. 10.

115. - Dyma un y ffydd y Gwylion o gor
*Cwest. Pa lesháad enwedigola dderbyn y ffydd-
loniad gan Ghrift?*

*Atteb. 1. Cyflawnhaad. 2. Mabwysiad. 3. San-
Greddiæd.*

Fôd cyflawnhâd trwy ffydd fe ddywed yr Apostol, yr ydym gan hynny yn cyfrif mai trwy ffydd y cyflawnbêir dŷn, heb weithredoedd y Ddeddf. Rhuf. 3. 28.

Cwest. Beth yw Cyflawnhâad?

Atteb. Cyflawnhaad yw gwaith rhâd râs Duw, trwy'r hyn y mae yn maddeu ein holl bechodau, ac yn ein derbyn ni yn gyflawn yn ac am gyflawnnder Iesu Ghrift, a gyfrifir ini.

Fôd Cyflawnhâad yn waith rhâd râs Duw, fe ddywed yr Apostol ini. Rhuf. 3. 24. *Wedi ein cyflawnhâu yn rhâd trwy ei râs ef.* Ac fôd Duw yn ein derbyn ni yn gyflawn yn, ac am gyflawnnder Iesu Ghrift, sydd eglur yn Rhuf. 5. 19. *Fel trwy anufudd-dod un dŷn y gwnaeth pwyd llawer yn bechaduriaid; felly trwy ufudd-dod, (neu gyflawn-
der) un (sef Christ) y gwneir llawer yn gyflawn.* Hynny yw, yn berfffeith gyflawn, fel y mae Duw yn eu derbyn yn gyflawn. Ni a gyflawnheir, nid trwy gyflawnnder ynglynn ynom ni, sydd ammherffaith; ond trwy berffaith gyflawnnder Christ, yr hwn a gyfrifir ini, ac y mae Duw ei hun yn ei gymeryd yn eiddom ni.

Cwest. Pa rannau sydd o Gyflawnhâad?

Atteb. 1. Maddeuant o'n holl bechodau.

*2. Ein cymeryd ni yn gyflawn trwy gyfrif cyflawn-
der Christ ini.* Rhuf. 4. 6. 7. 8.

1. Mae ein pechodau yn ein gwneuthur ni yn gâs ac yn ffiaidd yngolwg Duw; ie maent yn ein gwneuthur ni yn felldigedig ac yn euog o ddarnnedigaeth dragwyddol: yn gyntaf gan hynny y rhai hynny a gymerir ymaith: nid nad ydynt ddim; neu, nad ydyw Duw yn eu gweled hwynt; ond nad ydyw Duw yn eu cyfrif hwynt ini. 2 Cor. 5. 19.

2. Mae Duw i'n gwneuthur ni yn ogoneddus yn ei o-
lwg, yn cyfrif cyflawnnder ei Fâb ini, ac yn hwnnw mae
yn ein derbyn ni. O ran yr hyn y dywedir ein bôd ni

yn

yn cael ein gwneuthur yn gyflawn trwy gyflawnder Christ. Rhuf. 5. 19. *Ac yn gymeradwy yn yr anwylyd.* Eph. 1. 6.

Trwy gysylltu ynglyf y ddwy ran hon o'u cyflawnhâd ni, fe osodir allan yn eglur raggerol gariad Christ tuacat y ffyddloniaid. *Canys,*

1. *Yr hyn sydd eiddom ni, sef ein pechodaau, sy 'n ein gwaeuthur ni yn druan, efe a'u cymer oddiwrthym, ac a'u gesyd hwynt arno ei hunan, Efe a wnaethpwyd yn bechyd trôsom ni.* 2 Cor. 5. 21.

2. *Yr hyn nid yw eiddom ni, oblegid hebddo ni allwn fôd yn happus, efe a'i dyry ini, ac a'i cyfrif yn eiddom ni, ac a'i derbyn, fel pettai yn eiddom ni, sef ei berffaith gyflawnder ei hun. Canys fe ddywed yr Apostol, Fe a'n gwnêir ni yn gyflawnder Duw ynddo ef,* 2 Cor. 5. 21.

Cwest. Beth yw Mabwysiad?

Atteb. *Mabwysiad ydym gwaith rhâd râs Duw, trwy'r hyn o Blant digofaint a Diafol, f' a'n gwneir yn Blant i Dduw.* Ioan 1. 12.

Nid yn unig y cyfrifir ni yn Blant, ac i'u cymerir i nifer hâd Duw; ond hefyd ni a wisgir ac a addurnir â holl freintiau Plant Duw. Rhuf. 8. 17.

Cwest. Beth ydyw Sancteiddiad?

Atteb. *Sancteiddiad ydym gwaith Yspryd Duw, trwy'r hwn y mae y neb a gyflawnhêir yn cael o fesur rhan a rhan ei adnewyddu trwyddo, yn ôl Delw Dduw mewn Sancteiddrwydd a chyflawnder.*

Trwy waith Sancteiddiad fe wneir dŷn (mewn ystyriaeth foesawl) yn ddŷn newydd, ac megis yn ddŷn a-rall. *Wele, gwnaethpwyd pob petb o newydd.* 2 Cor. 5. 17. Mae gando feddyliau newydd, dymuniadau newydd, bwriadau newydd.

Yr adnewyddiad hyn sydd o fesur rhan a rhan, hynny yw o fesur ychydig ac ychydig, ac nid ei gŷd ar un waith. Ni a gyflawnhêir yn wir a'r unwaith, ond ni Sancteiddir o fesur rhan a rhan. *Q* herwydd hyn y cyfflybir Sancteiddiad i Oleuni a lewyrchfa fwyfwy hyd ganol dydd. Dih. 4. 18.

Fel y mae'r adnewyddiad bwn o fesur rhan a rhan, felly mae trwy'r holl ddŷn, hynny yw, oddifewn ac oddiallan, yn holl nerthoedd yr enaid, ac aelodau'r Corph: A hynny yn ôl Dewi Duw mewn sancteiddrmydd a chyflawnder. Fel y mae y Christion trwy fywyd sancteiddiad yn byw bywyd Duw; o'r lleiaf mae ganddo athrylith a gogwyddiad Sanctaidd, o'r galon yn ymeginio i wneuthur feiliau, i fôd yn sanctaidd, fel y mae Duw yn sanctaidd; ac fel y dywed yr Apostol, (Rb. 7. 22.) *Efe a ymbystrada y Nghyfrannod Duw yn ôl y dŷn oddifewn.*

Cwest. Pa iâ arall y mae? Etengyl yn ei osyn heb iaw ffydd?

Atteb. Edifeirwch. Math. 3. 2. + 4. 17.

Cwest. Beth yw Edifeirwch?

Atteb. Edifeirwch ydyw'r fath newidiad o'r galon, ac a bair fach dd newyddol.

Mae edifeirwch yn bennaf yn sefyll yn newidiad y meddwl a chalon dŷn. A'r fuchedd newydd ydyw ffrawyth ac eglurdab o'r galon newydd. Calon newydd a bair fuchedd newydd. Mae newidiad ac adnewyddiad y fuchedd oddiallan yn angenrheidiol. Canys rhaid i Edifeirwch fôd yn yr holl ddŷn; a'r olaf sydd yn rhoi eglurdab i'r cyntaf. A ph'le y mae y cyntaf, fe fydd yr anol; lle mae calon newydd, fe fydd buchedd newydd. Canys mae'r enaid yn llawn-lywodraethu a'r y Corph, a'r Corph a lwyd-reolir gan yr enaid.

Cwest. Pa iai yw'r Moddion oddiallan a ordeiniodd Duw i weithio ac i gryfhaus ffydd, edifeirwch, a thadau eraill ymni?

Atteb. *Ordinbatu Duw, yn enwedig y Gair, Sacerdotalia in a Greddi.*

Gweinidogaeth y Gair sydd fwyaf anghenrheidiol yn y gystal i weithio, ac i chwanegu ffydd a rhadau eraill. Yr hyn a ddywed yr Apostol am ffydd, *Ei bôd hi trwy glymed, sydd wir am yr holl radau eraill nesyd, a manent trwy glyned y Gair a bregethir.* Ac i ddangos mai trwy hynny y megir grâs hesyd, mae'r Apostol Petr yn cynghori, *I chwennyd ymddygu didwyll iach y Gair, fel y cynnyddon*

trwydd. I Pet. 2. 2. Och, pa fodd y perthyni ini, fel dyl fulw yll duysaf a'r weinidogaeth y Gair, felly cyd-tymheru ffydd a'n clywed; fel trwy goelio yr hyn a osoder o'n blaen ni allan o Air Dûw, felly i gymhwysedd pob gwirionedd atom ein hunain, a'r y mae'r Gair yn ei ddatguddio.

Cw. st. Beth ydyw Sacrament?

Attab. Ordinbach Sanciadaid a ordeiniwyd gan Ghrift, yn yr hon trwy arwyddion oddiwallan yr arwyddocceir ac y felir ini y grâs oddifwn

Ac felly mae tri pheth yn angenrheidiol i gyflawni Sacrament.

1. Arwydd oddiwallan.

2. Grâs ysprydol oddifewn.

3. Ordinbach Christ.

Cw. st. Pa siwl Sacrament sydd?

Attab. Dau yn unig: Bedydd a Swpper yr Arglwydd.

Fel yr oedd gynt gan yr Iddewon ddu Sacrament yn arferedig: y rhai oeddynt, Enwaediad a'r Oen pâsg: felly mae gan Ghrifianogion yr awron ddu yn gyfatterbol iddynt, Bedydd i'r enwaediad; Col. 3. 11, 12. Swpper yr Arglwydd i'r oen pâsg. Luc. 22. 15, &c.

Cw. st. Beth ydyw Bedydd?

Attab. Sacrament yn yr hon trwy olchi a Ddwr yr enw o'r Tâd, a'r mab, a'r Yspryd gân, yr arwyddocceir ac y felir ini ein Hail enedigaeth

Gan fôd y Bedydd yn Sacrament o'n hail-enedigaeth, fe ddengys,

1. Ein bôd ni wedi ein geni wrth natur mewn cyflwr melldigedig; rhaid ini gan hynny cyn gynted ac y gân ni, gael ein geni drachefn. Mae'r Ail-enedigaeth mor llwyr angenrheidiol i'n Hiechydwriaeth, fel na allwn hebddo fyued i mewn i Deyraas Nefoedd. Isa. 3. 3.

2. Fôd Bedydd yn fôdd o'n Hail-enedigaeth. Yspryd Duw yn, a thrwy'r Ordinbach honno a weithiau y gwaith mawr hwn. O ran yr hyn y dywedir, y gelir ni dracfeis a Ddwfr, ac o'r ffryd. Ioan. 3. 5. Etto ni wir ail-enir

Yn y ddiwedd y ffydd Ghrifianogol
pôb yn oddifewn, yr hwn a fedyddir. Nid y golchiad
yn unig a dwfr, ond gweithrediad yr Yspryd trwy hyn-
ny sydd yn ein had-geshedlu ni. A'r Yspryd sydd rŷdd
weithiwr, yn gweithio y pryd, ac a'r y neb a fynno.

Ioan. 3. 8.

Cwest. Beth yw'r Arwydd oddiallan yn y Be-
dydd?

Attab. Dwfr. Act. 8. 36.

Nid oes dim mor gymmwys a dwfr i osod allan ein
glanhâd oddiwrth bechd, trwy'r hwn y gwneir yr hyn
sydd aflan yn lân.

Cwest. Beth ydyw'r peth oddifewn a arwyddoc-
cîr trwy y Dwfr yn y Bedydd?

Attab. Gwaed Christ.

Oblegid hyn y dywedir ddarfod i Christ ein golchi ni
oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei bun. Datc. 1. 5. Fel y
mae rhinwedd i lanhau mewn Dwfr, felly mae yngwaed
Christ. Gwaed Jesu Christ sydd yn ein glanhau ni oddiwrth
bôb pechod. 1 Ioan 1. 7.

Cwest. Beth yw Swper yr Arglwydd?

Attab. Sacrament ein magwriaeth ysprydol, yn yr
hwn trwy dderbyn Bara a Gwin, yn ol Ordinbad Christ,
y gosodir allan ac y felir inti ein cymmundebed a Christ.

Swper yr Arglwydd a chwanegir at y Bedydd, fel
Modd angenreidiol i faentumio bywyd Duw a genhed-
lwyd ynom ni.

Cwest. Beth yw'r Arwyddion oddiallan yn Swp-
per yr Arglwydd?

Attab. Bara a Gwin. Mat. 26. 26.

Cwest. Beth y mae'r bara Sacramentaidd yn ei
osod allan?

Attab. Corph Christ.

Hyn sydd eglur yngîeriau Christ ei hun, 'r hwn gan
ddal y Bara yn ei ddwylo, a ddywed am dano ef. Hwn
yw fy nghorff, (Mat. 26. 25.) hynny yw, trwy arwydd-
oedd, fel pe dywedasei, Y bara hwn sydd yn arwydd-
oedd fy nghorff.

Cwest.

wedi eu begluro.

Cwest. Beth y mae y Gwîn Sacramentaidd yn ei osod allan?

Atteb. *Gwaed Christ.*

Hyn sydd eglur trwy eiriau'r Ordinhâd, lle mae Christ, gan ddal y Cwppan oedd a gwîn ynddo, yn dywedyd am y gwîn, *Hwn yw fy ngwaed.* Mat. 26. 27.

Cwest. Beth a arwyddoccêir trwy dorriad y bara gan y Gweinidog?

Atteb. *Ddarfod torri Christ trwy boenau am ein pechodaau ni.*

Fal hyn mae'r Apostol yn dwyn Christ ei hun i mewn yn cymhwys o ddefod honno. *Hwn yw fy ngborp, yr hun a dorrir trachob.* 1 Cor. 11. 24.

Cwest. Beth a arwyddoccêir wrth dywallit y Gwîn?

Atteb. *Tywalt gwaed Christ.*

Neu ei ddioddefaint hyd angen, a thywallt ei enaid yn aberth tros bechod.

Cwest. Beth a arwyddoccêir wrth y Gweinidog yn rhoddi y Bara a'r Gwîn i'r rhai a fo yn Cymmuno?

Atteb. *Bod Duw yn rboddi ac yn cynnig ei Fab iddynt.*

Yn y Sacrament mae Duw yn cynnig ac yn rhoi Christ i bôb cymmun-wr; ie mae efe megis yn ei röddi ef yn ein dwylo a'i ddwylo ei hun.

Cwest. Beth ydyw meddwl y geiriau hynny gan y Gweinidog cymmer, bwyta, âf?

Atteb. *Enwyllys Duw am ini gymbwysio Christ atom ein bunain.*

Nid yw efe yn unig mewn delw fûd yn cyonig Christ, ond trwy ei weinidog mae efe yn llefaru wrthym, ac yn dywedyd, *Yr wyfi yn enwyllysio ac yn gorchymnys i chwi gymeryd fy Mab, a'i gymhwysio ef atoedd eich bunain, fel y byddoedd fyw trwyddo ef.* Beth a ellir ei ddisgwyl ychwaneg o ran Duw i'n haunog i dderbyn ei fab ef?

Cwest. Beth a osodir allan wrth y bobl yn cymryd y Bara a'r Gwîn?

Atteb.

Attab. *Eu bod yu derbyn Corph a gwael Christ.*

Hynny yw, derbyn Christ, a wnaethwyd yn ddyn, ac yn aberth, yn ysprydol iddynt eu hunain trwy ffydd. Gwys ffydd yw'r offeryn hwanw, trwy yr hwn yw ydym yu derbyn Christ, a'i holl ddeonau, fel y cynnigir hwynt ini ys yr Efengyl, ac y felir hwynt ini yn y Sacrament. Mae ffydd i'r enaid, fel y llaw i'r Corph. Yr hyn a gynnigir i ddyn er lleshad, ei law a'i derbyn i fod yn eiddo ef: Fel hyn, pan gyunygio Duw ei Fâb ini, mae ffydd yn gyntaf yn perfwadio'r galon o ewyllys da Duw tuac at ddyn, ac o'i fwriad difrifol i roddi Christ iiddo, ac a'r hynny mae yu cymmhwyso ac yn gymeryd Christ iiddo ei hun, fel yr eiddo ei hun. Trwy ffydd y pethau arwyddedig mor sicr a dderbynir er porthiant yr enaid, ac y derbynir yr Arwyddion er porthiant i'r Corph. Nid yw ffydd yn unig ein llaw i gymeryd Christ, ond ein genau hefyd i w dderbyn i mewn, ac i w ddiwag i'a calonau, trwy yr hyn y mae yu myned yn ymborth ac yn gryfder ini.

Cwest. Beth yw dilefnydd pob Cymruwr, cyn iiddo syched at Fwrdd yr Arglwydd?

Attab. *Imholiadau.*

1 Cor. 11. 28. *Efoled dyn ef ei hun, ac felly bwytiaed o'r bara, ac yfed or Cwppan.* An y peth hyn gwelwch fy Hyfforddiadau am iawn dderbyn Swpper yr Arglwydd. *Penmor. 10.*

Cwest. Beth yw Gweddi?

Attab. *Gweddi ydyw offryniad ein dymuniadau at Dduw yn enw Christ, am y cyfryw bethau da a'r adda-modd ef eu rhoddi ini, ac sydd arnom ninnau eisien en derbyn.*

Nid yw Gweddi yn sefyll mewn arferiad o ffurf wâg o eiriau da, ond yn cydwyb yr enaid a'i ddymuniadau at Dduw, am y pethau da i yd gan ddo ef i w rhoddi. *1 Cor. 26. 9.*

Trwy enw Christ. Nid yw Duw yn gwrando pechaduriaid, hynny gwybod yd yfod yn eu henwau eu hunain. Oni medd Christ ei hun. *Ioan 15. 16.* *Beth bynnag a ofynnach i'r Tâd [Lloftr] i'n i] f' a'i rhydd efe i chwi.*

Am y cyfryw bethau a'r a addawodd efe eu rhoddi, ac yr ym yn sefyll mewn eisiau am danynt. Rhaid i'n gweddiau fod yn ôl ewyllys Duw: A hyn sydd yn ôl ewyllys Duw, iui ofyn yr hyn a addawodd ef, a'r hyn a wyr efe fod arnom eu heisieu. A hyn yw'r hyder sydd gennym tuac ato ef, ei fod ef yn ein gwrand o ni, os gofynnwn yn ôl ei ewyllys ef. I Ioan 5. 14.

Rhannau Gweddi yw,

1. Cyffes, neu addefiad o'n pechodau a'n camweddau.
2. Dymuno, neu ofyn, neu geisio a'r ei law ef, y cyfryw bethau a fo arnom eu heisieu.
3. Diolchgarwch, neu foliannu Duw am y trugareddau a dderbyniason.

Cwest. Beth yw cyflwr y ffyddloniaid a'r ôl marwolaeth.

Atteb. Mae eu cyrpb yn buno, gan ddisgryl adgyfodiad i fywyd, a'u beneidian yn myned yn union i'r nesioedd: ac yn y Farn ddiweddaf eu cyrpb a gyffylltir a'u beneidian, a'r ddau a gânt fwynd â bapurwydd tragwyddol.

Cwest. Beth yw cyflwr yr annuwioſ a'r ôl marwolaeth?

Atteb. Fe rwygmir eu cyrpb y nghadwynau marwolaeth erbyn dydd mawr y Farn: a'u beneidian ânt yn union i uffern: Ac a'r yr adgyfodiad cyffredinol eu cyrpb a'u beneidian a gyffylltir ynghyd dracben, a'r ddau a deirlir i boenau uffern, y rhai sydd ddiseliant ac anorben.

Y parháad tragwyddol gyd a'r boen annoddefadwy sydd yn mawr-drymhâu trueni y-damnedig: ac sydd yn dangos ffoledd, neu yn hytrach ynfydrwydd gwallgofus yr holl rai sydd a'm fyrr fodlonrwydd iw chwantaus a夫an, yn eu boddi eu hunain i'r fâth drueni tragwydd. Beth ni ddylid ymwrthod ag ef neu ei ddioddef yn y byrr amser o'r bywyd hwn i ddiangc rhag y boen dragwyddol?

Esponiad byrr o'r X. Gorchymmyn.

Cwest. **P**A sawl Gorchymmyn o'r Ddeddf sydd ?
Atteb. Dêg.

Cwest. Pa Ddledswyddau a roddant a'r lawr ?
Atteb. Rob mât b a'r Ddledswyddau sydd ddyledus arnom i Dduw neu ddŷn.

Y mae y pedwar Gorchymmyn cyntaf, a Scrifennwyd a'r un o'r llechau, yn cynnwys ein D'lêd tu ag at Dduw: a'r chwêch eraill, a scrifennwyd a'r y Llêch arall, yn cynnwys ein D'lêd tuag at Ddŷn. Mat. 22. 37, 38, 39.

Cwest. Pa bethau enwedigol a ellir eu ystyried yn y Dêg Gorchymmyn ?

Atteb. 1. *Y Rhagymadrodd.*

2. *Y Gorchymmion eu hunain.*

Cwest. Ym mha eiriau y gosodir allan y Rhagymadrodd i'r Dêg Gorchymmyn ?

Atteb. Yn y rhai hyn, *Myf yw'r Arglwydd dy Dduw, yr hen a'r ddûg di allan o'r wlad yr Aipht, o dŷ y caethiwed.* Exod. 20. 2.

Cwest. Beth a ddywed Duw am dano ei hun yn y geiriau hyn ?

Atteb. *Mae Duw yn y geiriau hyn yn dangos, ei sed ef ei hun yn Brif-ben Arglwydd yr holl Fydd, ac befyd yn Dduw mewn Cyfannod, fel gynt ag Israel, felly yr awron a'i holl bobl.* Fel y gwareddodd ef yr Israeliaid o'u caethiwed yn yr Aipht, felly y gwared ninnau o'n caethiwed Ysprydol tan y Pechod, Satan a'r Bŷd: ac am hynny yr ydym yn rhwym iw gymeryd ef yn Dduw ini; ac i gadw ei holl Orch'mynion.

Cwest. Pa un yw'r Gorchymmyn cyntaf ?

Atteb. *Na fydded id Dduwiau eraill ger fy mron i.*

Cwest. Pa bethau a osynnir yn y Gorchymmyn hwn ?

Atteb.

Attab. *Ini adnabod a chydabod Duw yn unig wr Dduw, ac ini ei gymeryd ef yn Dduw ini, a'i ddewin ef uwchlaw pawb.*

Nid digon ini Brofessu y gwîr Dduw, ond rhaid ini ei gymeryd ef yn Dduw ini. Canys bôd Duw gennym ydyw, yn ein Meddwl a'n Deall ei adnabod a'i gydnabod ef yn unig wr Dduw, Holl-ddigontol, Holl-alluog, Anfeidrol ym mhob mât o Berffeithrwydd; felly hefyd yn ein Calonnau a'n hanwydau glynw wrtho ef, gan lawn-fwrriadu ein cyssegru ein hunain yn hollawl iw Addoliad a'i wasanaeth ef, ac hyd yr eithaf o'n gallu rhyngu bodd iddo ef ym mhob peth, trwy gydffurfio ein bucheddau ym mhob usudd-dod Sanctaidd iw ewyllys datcuddiedig ef.

Cwest. Pa bethau a warafunir yn y Gorchymwyn hwn?

Attab. 1. *Bod heb adnabod neu gydnabod neb rhwng Dduw, yr hyn sydd Anghrediniaeth di-Dduw.*

2. *Bod yn addoli gan yn lle y gwîr Dduw, yr hyn sydd Ddelw-addoliaeth.*

3. *Gosod ein calonnau a'n hanwydau yn ormodd a'r bethau eraill, beblaw y gwîr Dduw.*

Cwest. Beth a arwyddir yn y geiriau hyn, GER FY MRON 1?

Attab. *Maent yn arwyddo fod Duw, er ei fod ynddo ei hun yn anweledig, yn gweled ac yn gwybod pob petb, a'i fod yn anfodlon iawn ini gael Duwiau eraill, a'i gwas'naethu hwynt.*

Cwest. Pa un yw'r Ail Gorchymwyn?

Attab. *Na wna it ddelw gerfiedig, na llan dim a'r sydd yn y nefoedd uchyd, nac a'r y sydd yn y ddaiar isod, nac a'r sydd yn y dwfr tan y ddaiar: Nac ymgrymma iddynt, ac na wnas'naetha hwynt; Oblegid myfi yr Arglwydd dy Dduw iwyf Dduw eiddigus, yn ymweled ag anwiredd y Tadau a'r y Plant byd y drydedd a'r bedwaredd Genhedaeth, o'r rhai am casam, ac yn groneuibur trugaredd i filoedd, o'r rhai am carant, ac gadwant fy ngorchymynion.*

Cwest. Beth a osynnir yn y Gorchymwyn hwn?

Attab. *Ini addoli y gwîr Dduw mewu modd unigwm.*

Ni wasnaetha ini yn unig addoli yr unig wir Dditiw, ond trwy'r cyfryw Foddion, ac yll y cyfryw ffordd ac sydd gyffonol i w natur efa, ac a bennododd efa ini yn ei Air.

Cwest. Beth a warafunir yn y Gorchymmyn hwn?

Attab. 1. *Pob ewyllys-grefydd a choel-grefydd, trwy'r hyn y mae dynion yn addoli Duw yn ôl eu dychymygion eu hunain.*

2. *Gwneuthur Delwau i ddefnydd Crefyddol,*

3. *Addoli Delwau; neu'r gwir Ddùw trwy ddelwau, neu un ffordd arall yn erbyn ei Air efa.*

Cwest. Pa un yw'r trydydd Gorchymmyn?

Attab. *Na chymher enw'r Arglwydd dy Dduw yn ofer; canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymero ei enw efa yn ofer.*

Mae Enw Duw yma yn arwyddocâu, fel Duw ei hun, felly ei Diflau, priodoliaethau, Ordinhhadau, Gweithredoedd, a phob peth arall, trwy'r hyn y mae efa yn ei yspysu a'i ddatguddio ei hun.

Cwest. Beth a otynnir yn y Gorchymmyn hwn?

Attab. *Ini ym bob peth Sanctaiddio a gogoneddu Enw Sanctaidd Duw.*

Fel y mae yn Sanctaidd ac yn ogoneddus ynddo ei hun, felly y dylem ni ei arfer yn Sanctaidd ac yn barchedig, yn ein holl feddyliau, geiriau a gweithredoedd.

Cwest. Pa bethau a warafunir ini yn y Gorchymmyn hwn?

Attab. 1. *Na bô ni yn cynnwys ynom feddyliau ofer ysgafn am Dduw, a'i Briodoliaethau efa, yr hyn yw cablu Duw yn ein calannau.*

2. *Na ddywedom ddim yn annwylol, nac yn amharchus am Dduw, nac am ddim a'r sydd yn peribyn iddo.*

3. *Nac arferom nag enw, na Thiblau Duw yn ysgafn, neu heb achos gyflawn.*

Pan Adamweinio dim yn ddisymmwth ym myfyr Christianogion, pethi rhwng arferol ydyw iddynt yn ebrwydd lefain, *O Arglwydd! O Dduw! neu O Jesu!* A phant ymnennt gael rhwng beth, hawdd ganddynt lefain, *Er mwyn Duw gwnewch byn, er mwyn Christ gwnewch bym,* ac etto heb feddwl yn barchedig am Dduw, neu am Jesu, os byddant

ddant yn meddwl dim am danyot. Rhaid i hyn fod yn uniaawn gymesyd Eaw Duw yn ofer.

4. Na thengom yn ein ymddiddanion cyffredinol.

Er bod hyn yn bechyd cyffredinol ac arferol, etto perchyd mawr erchyll ydyw, sydd yn crôch-kefain ynghluestiau Duw a'm dialedd.

Cwest. Ym mha eiriau y mae y bygwth yn erbyn y rhai a dôrro'r Gorchymwyn hwn?

Atreb. Yn y rhai hyp, Nid dienog gas yr Arglwydd yr hwn a gymero ei enw ef yn ofer.

Y geiriau hyn a gynhwysant ynddynt, fel maintioli y gospedigaeth a roddir a'r y rhai a gymeront Enw Duw yn ofer, yr hwn nid yw ddim llai na marwolaeth a damnedigaeth dragwyddol; felly y dangosant mor annocheladwy yw y gospedigaeth honno. A chydâ hynnw mae yn arwyddoccau er iddynt ysgatfydd ddiangef rhag baru a chôs dyn; etto na ddieuoga yr Arglwydd mo'nynt, ac ni ddiangant ei farw gyflawn ef.

Cwest. Pa ddiwrnod y dydd yw'r Gorchymwyn?

Atreb. Gofia y dydd Sabbath i'r sancteiddio ef. Chwe diwrnod y gweithi, ac y gweini dy boll waith: Ond y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw; na ionâ yddo ddim gwaith, tydi, na'ib fab, na'ib ferch, na'ib iwas'naethwr, na'ib iwas'naethferch, na'ib anifail, na'ib ddeinbraddfyr a fydd o fewn dy byrh; O herwydd mewm cbwé diwrnod y gwaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaiar, y môr, a'r byn oll sydd ynddynt, ac a orphwyssodd y seithfed dydd; am hynny y bendithiodd yr Arglwydd y dydd Sabbath, ac a'i sancteiddiodd ef. Exod.20.8. 9. 10. 11.

Cwest. Beth a orchymynnir ini yma?

Atreb. I ni gofio neillduo un diwrnod mewm saith i fod yn orphwyssfa Sancteidd i'r Arglwydd.

Cwest. Pa ddiwrnod o'r wythnos a appwynti odd yr Arglwydd iw gadw yn Orphwyssfa Sancteidd, neu yn Sabbath?

Atreb. O Greadigaerb y Bîd byd Adgyfodiad Christ, fe appwynti odd Duw y dydd diweddaf o'r wythnos iw gadw yn Orphwyssfa Sancteidd; Ond er hynny o amser y dydd cymaf o'r wythnos.

Mae hyn yn eglur, yn gyntaf, Oddiwrth Arfer yr Apostolion, y rhai a'r ôl Adgyfodiad Christ a ymgynnllasant yn waftad a'r y dydd cyntaf o'r wythnos, a hynny yn ddiau a'r Orchymyn Christ ei hun. *Ioan 20. 19, 26.*

Ad. 2. 1. a'r 20. 7. Yn ail, Oddiwrth Arfer gwaftadol yr Eglwys a phobl Dduw. O ddyddiau'r Apostolion hyd y dydd hwn, yr Eglwys a gadwodd y dydd cyntaf o'r wythnos, a hynny tan yr enw hwn, *Dydd yr Arglwydd*. Ac ni ddylid dirmygu Defod gwaftadol Eglwys Dduw.

Cwest. Pa fodd y mae ini Sancteiddio y Sabbath?

1. Trwy gadw Gorphwysdra?

2. Trwy gyssegru'r Orphwysdra honno yn hollawl i Addoliad a Gwafanaeth Duw.

Cwest. Oddiwrth pa bethau y mae'n rhaid ini orphwyso mewn modd enwedigol?

Ateb. 1. Oddiwrth llafur corporol, a gorchmylion bydol.

Etto nid yw anghyfreithlon drwsio Bwyd a'r y dydd hwnnw, na gwneuthur dim gwaith angenrheidiol, neu o Drugaredd, ini ein hysaing, neu i eraill, i ddŷn neu i anifail. Wrth waith angenrheidiol, yr wyf yn meddwl y cyfryw ac ni ellid ei wneuthur y dydd o'r blaen, ac ni ellir yn ddiogel ei oedi hyd y dydd nesaf. Fe ellir, ie fe ddylid gwneuthur y cyfryw bethau a'r ddydd yr Arglwydd.

2. Oddiwrth boll etriau bydol, ac ymddiddanion am bethau dairol.

Heb ddymedyd ein geiriau ein bunain, medd y Propwyd, *Isai. 58. 13.* Hyd yw, nid siarad am bethau'r bŷd a'r ddydd yr Arglwydd.

3. Oddiwrth boll feddyliau bydol, cymaint ac a allom.

A'r y dydd hwnnw fe ddylai ein meddyliau fod yn nefol, yn myfyrio a'r bethau ysprydol, yn enwedig ar waith mawr ein Pryniedigaeth trwy Jesu Christ.

4. Oddiwrth bob digrifwch a difyrrwch bydol.

Mae y rhai hyn yn fwy rhwystr i waith Sanctaidd yr enaid, na llafur bydol. Haws i ddŷn ymarfer a meddyliau nefol wrth yr aradr, neu'r gertwyn, nag wrth y Bowliau, neu'r Cardiau, neu'r cyfryw chwareon cnaw-

dol: Am hynny mae'r Arglwydd yn gwarasun yn eglur
ini geisio ein betwyllys ein bunain a'r ei ddydd sanctaidd ef.
Ms. 58. 13.

5. Yn enwedig oddiwrth holl wdiubredeodd pechadurus, me-
gis glothineb, meddwrdd, a'r cyfryw.

Rhaid i waith pechadurus fod yn anweddus i ddydd sanctaidd. Yn ddiau ni allwn ni wneuthur mwy o Sar-
háad ac anfri i Dduw, na gwas'naethu Diafol yngweith-
redoedd y tywyllwch, pan ddylem fod yn ei was'nae-
thu ef trwy weithredoedd Duwiol defosionol.

Cwest. Ym mhâ beth y mae Cyffegriad or Or-
phwysfa a'r ddydd yr Arglwydd yn sefyll?

Attab. Yn treulio yr amser neillduol bronw oddiwrth wei-
tbredoedd ein galwedigaeth, mewn dledswyddau o Addoliad a
Gwasanaeth Duw.

Nid digon ini gadw gorhwyfdra, ond rhaid ini gadw
gorhwyfdra Sanctaidd, oblegid hynny yw'r diben pen-
naf o'r orphwyfdra gorphorol oddiellan.

Cwest. Pa Ddledswyddau duwiol a ofynnir yn
enwedig i sancteiddio dydd yr Arglwydd?

Attab. Dledswyddau Cyffredinol, Neillduol, a Dirgel.

Cwest. Beth a ddeellwch wrth Ddledswyddau
duwioldeb cyffredinol?

Attab. Yn cyfryw ac a gyflawnir yn y Gynnulleidfa gyhoedd.

Cwest. Beth a ddeellwch wrth Ddledswyddau
duwioldeb neillduol?

Attab. Yn cyfryw ac a wneir, neu a ddylid eu gwnenbur
mewn Teulu neillduol.

Sef, darllein yr sgrythur lân, a llyfrau da eraill,
gwenddío a moliannu Duw, ail-adrodd y Pregethau a
glywsm, Catecheisio Plant a Gweision, Canu Psalmau,
ac ymddiddan am bethau da. Trwy gyflawniad gwastadol
cydwybodus o'r dledswyddau Sanctaidd hyn, fe wneir Tŷ
Neillduol yn Eglwys Dduw, ac fe fydd Duw yno yn bres-
fennol, fel y bu yn nhŷ Obbededom, iw bendithio hw-
ynt.

Cwest. Beth a ddeellwch wrth dyledswyddau
dirgel o dduwioldeb?

Attab.

Attab. *Ir cyfrino ac a gyflawnir mewn lle' dirgel.*

Heblaw Dledswyddau cyhoedd a neillduol, mae rhai dirgel iw cyflawni gan bob un ar ei ben ei hun, yn ei ystafell ddirgel, sef, darllein yr 'fgrithur lân a llyfrau da eraill; gweddiô a'r Dduw, myfyrio a'r y pethau a ddarllenodd ac a glywodd, yr hyn sydd fod godidawg i wneuthur y gair a ddarllenwyd ac a glywyd yn fuddiol ini.

Cwest. Pa ran o'r diwrnod sydd iw dreulio mewn gwasanaeth sanctaidd a chi syddol?

Attab. *Ir holl ddiwrnod, ond cymaint ac a se rbaid ei dreulio yngwaith Anghenrhaid a Thrugaredd.*

Mi a wnn fod llawer yn meddwl, iddynt wneuthur y cwbl a ofynnir gaddynt, os treuliasant ychydig oriau yngwasanaeth Cyhoedd Duw; ond mewn gwirionedd, rhaid yw treulio'r holl ddiwrnod mewn gwasanaeth sanctaidd a chrefyddol. Fel y canhiattáodd Duw ini chwe diwrnod am ein gweithredoedd ein hunain; felly fe fyndiwrnod cyfan i'r Addoliad a'i wasanaeth ei hun. Yn ddiau gan ein bod yn cymeryd arnom gyssegru diwrnod cyfan i'r Arglwydd, os cadwn ddarn o hono i'n gwaith ein hunain, a chwiauñhâu hynny, fel y gwaeth *Ananias* mewn achos arall, ni a fyddwn nid yn unig yn yspelio Duw am ei gyflawnnder, ond hefyd dŵyn arnom ei gyflawn gosped gaeth ef. Heb law hyn, fel y gorhwyfodd Duw y seithfed dydd, felly fe ddywedir iddo ei *Saneddi* ef, hynny yw, ei ddidoli a'i gyssegru yn hollawl iw wasanaeth ei hun; Ac am hynny ni allwn ni heb drais a chyssegr-ladrad gymeryd o'n bodd un rhan o'r amser hwnnw a lwyd-gyssegrwyd iddo ef.

Cwest. Pa bechoda'u a warafunir yn y pedwerydd Gorchymyn?

Attab. 1. *Esgeluso yn ddiofal y dledswyddau sanctaidd a ofynnir gennym.*

2. *Eu cyflawni bwynt yn farwedd, ragritbiol, heb na bywyd nac yspryd.*

3. *Meddwl ein meddyliau ein bunain, dywedyd ein geiri-
su ein bunain, gweuthur ein gweithredoedd ein bunain.*

Cwest. Pa refyinmau sydd yn y Gorchymyn er mwya

mwyn annog yn well i sancteiddio dydd yr Arglwydd?

Attab. 1. *T MEMENTO, neu Nôd-Coffa a gosodir o'i flaen ef.*

Canys felly mae yn dechreu, *COFIA y dydd Sabbath, iw gadw yn sanctaidd.* Fel pe dywedasei'r Arglwydd, o'm hell Orchymmynion hyn na anghofier hwn; ond byddwch ddiwyd i wneuthur cydwylod o'i gadw ef yn ddydd Sabbath.

2. *Ir Lwonder cymwys o kono.*

Gan fod Duw yn canhiadu ini chwe diwrnod i'n gorchwylion ein hunain, onid ydyw yn gymmwys ac yn gyflawn iawn ini roi y seithfed iddo ef, ac iw wasanaeth ef? Fe allasai efe, yr hwn yw Arglwydd ein hamser, gleimio chwe rhan iw Addoliad a'i wasanaeth ei hun; pa'm gan hynny y naccáem yr ychydig y mae yn ei ofyn, pan allasai orchymmyn y chwaneg?

3. *Siamp! Duw ei hun. Exod. 20.11. Mewn chwe diwrnod y gwmaeth yr Arglwydd y Nefoedd a'r ddaiar, ac a orphwysedd y seithfed dydd.* Ein doethineb ni gan hynny ydyw a'r ôl y chwe diwrnod-gwaith, gadw y Sabbath yn Orphwysfa Sanctaidd.

Cwest. I bwy yn bennaf yr ydis yn gorchymmyn gadw'r Sabbath?

Attab. I *Dadau a Mammau, a Phen-teuluoedd.*

Eu dyledswydd ydyw, nid yn unig eu hunain i sancteiddio'r dydd, ond hefyd gweled, bod pawb tan eu gofal hwyt yn gwneuthur felly. Hynny a arwyddocceir yn y geiriau hyn, *Inddo ef na wna ddim gwraith, tydi, na'th Fâb, na'th Ferch, na'th wasnaethwr, na'th wasnaeth-ferch.* Fe ddylai pob Pen-teulu gymeryd i fynu dduwiol fwriad Josuab, *Am danaf, u'm Teulu, myni a wasnaethwn yr Arglwydd.* Fe nodir, yn arferol, fod y wir Grefydd a grym Duwioldeb yno yn llwyddo fwyaf, lle y cedwir dydd yr Arglwydd yn fwyaf cydwylod. Ac anfynych iawn y gwelir ddim gwir-ddifrifwch, nac archwaith blasus o fatterion crefyddol, lle y dibrifir neu'r esgeulusr y dydd hwnnw.

Cwest. Pa un yw'r pummed Gorchymmyn?

Atteb. *Anrhydeddu dy Dâd a'r Fam, fel yr eftynner dy ddyddiau a'r y Ddaiar, yr hon a rŷd yr Arglwydd dy Ddurni.*

Cwest. Pwy a ddeellir yma wrth Dâd a Mam?

Atteb. *Yr holl rai hynny sydd mewn un modd wrth ein llawn ni, neu mewn Awdurdod arnom, naill a'i yn y Teulu, a'i yn yr Eglwys, a'i yn y Deyrnas.*

Cwest. Beth a ddeellir wrth y gair Anrhydedda?

Atteb. *Pob math a'r wasanaeth sydd yn ddilid arnom i'n Blaenoriaid, megis cariad, anrhydedd, ofn, parch, ac ufudd-dod.*

Cwest. Beth ydyw meddwl y puimed Gorchym-myn?

Atteb. *Bod ini rôi pob anrhydedd, parch ac ufudd-dod dy-ledus i'n holl Flaenoriaid, o ba ryw bynnag y bont.*

Cwest. Beth ydyw'r chweched Gorchymmyn?

Atteb. *Na lâdd.*

Cwest. Beth a warafunir yma?

Atteb. *Pob ffodd a modd o ddwyr ein heinioes ein hunain, neu einioes rhai eraill, ond yn unig mewn modd o Gywander Cyhoedd, neu Amdiffyn angenrheidiol.*

Nid yw'r Gorchymmyn hwn yn unig yn gwarafun llofruddiaeth, ond hefyd pob gormodedd ac anghymedrolder yn bwyrra ac yfed, trwy'r hyn y dywedir fod llawer yn cloddio eu Beddau a'i dannedd eu hunain. Fel hefyd, censigen, casineb, dig pechadurus, geiriau cyfrifol, ymrafaelion diachos, ymladd, a'r cyfryw bethau sydd yn tueddu at ddwyr ymaith ein heinioes ein hunain, neu einioes ein Cymmydog.

Cwest. Pa bethau a ofynnir yn y Gorchymmyn hwn?

Atteb. *Pa bethau bynnag sydd yn tueddu at gadwr ein heinioes ein hunain, ac einioes ein Cymmydog.*

Cwest. Pa un y seithted Gorchymmyn?

Atteb. *Na wna'r Odineb.*

Cwest. Beth a warafunir yn y Gorchymmyn hwn?

Atteb. *Pob math a'r aelodau, yn gystal o'r enaid oddi-fewn, ac o'r Corph oddiwallan. Nid yu unig y gwaith oddiwallan*

allan o Buttindra a Godineb a warafunir yma, ond hefyd pob geiriau trythill, ac ymadrodd llygredig, pob meddwl a bwriad anniwair, pob brynti ac astendid syfyrdodol a synniedigol oddifewn; y rhai sydd nid yn unig yn bechadurus ynddynt eu hunain, ond hefyd yn llattaion yr astendid oddiallan. Canys, pan fo cwrwnt medi ymddwyn, fo escor a'r bechod. Jac. 1. 15. Pan ymddyger meddyliau aflen yn y galon, maent yn fuan yn escor a'r bechod, ac yn torri allan i weithredoedd o frynti ac astendid. Fel y mynnech chwi gan hynny ochelyd y weithred front o astendid oddiallan, byddwch ddiwyd i lethu pob meddwl trythill aflen, pan ddechreuo ymgodi yn eich calonnau.

Cwest. Pa un yw'r wythfed Gorchymmyn?

Attab. Na ladratta.

Cwest. Beth a warafunir yn y gorchymmyn hwn?

Attab. Pob petb sydd yn tueddu i niweidio ac i rhwystro cyfoeth ein cymydog.

Mae amryw ffyrdd o wneuthur cam a'n cymydog yn ei gyfoeth bydol. Sef, trwy eu hyspeilio hwynt a'r y ffyrdd cyffredin, a thorri iw tai; felly hefyd trwy arser pwysau a mesurau anghywir, trwy werthu wår [neu fasnach] ddrwg am dda; trwy ragflaenu, neu achub y farchnad, a'i rhwystro i eraill, fel trwy hynny y coder y pris: trwy fanteisio a'r anwybodaeth y Prynwr, ac Angenrhaid y Gwerthwr. Yr holl bethau hyn a warafunir yn y Gorchymmyn hwn, Na ladratta.

Ac fel y gwarafunir ini yma wneuthur Cam a'n Cymdogion yn eu cyfoeth bydol, felly hefyd a ni ein hunain, yr hyn a wneir yn rhy fynych lawer ffordd.

1. Trwy seguryd a diogi diosol yn ein galwedigaeth.

Dib. 18. 9.

2. Trwy gam-drefnu a threulio ein Cyfoeth. Dib. 21. 17.

3. Trwy Fachniaeth ffôl ammhwylllog. Dib. 11. 15.

4. Trwy ormod cariad a'r felys-wedd a difyrrwch.

Dib. 23. 21.

Cwest. Beth a ofynnir yn y Gorchymmyn hwn?

Attab. 1. Ini gadw, kyd y mae ynom ni, gyfoeth ein cymydog.

Prif-byngcian y ffydd Ghrystianogol

2. Ini fod yn gyfion ac yn honest yn ein marcbladoedd a phob dŷn.

Trwy gadw Gwirionedd yn ein geiriau, a chyflawneder yn ein gweithredoedd; gan gadw ym mhob peth gydwybod dda tuac at Dduw a Dŷn.

3. Bod yn hawdd gennym roddi, ac yn barod i gyfrannu a geraill. yn ôl eu Argenhaid bwynt, a'n Gallu ninnau.

Cwest. Pa un yw'r nawfed Gorchymmyn?

Attab. Na ddŵg gam-dystiolacth yn erbyn dy Gymmydog.

Cwest. Beth a waratunir yn v Gorchymmyn hwn?

Attab. yn gyffredinol, dŵyn Cam-dystiolacth yn erbyn un dŷn o blaen Barnwr.

Tan hwn hefyd y gwarafunir pob gair trwy'r hwn y rhwystrir neu y lleiheir enw da a chymeriad ein Cymmydog; megis, trwy gelwydd, enllib, neu ddrwgabsen, neu athrod, neu farn fyrbwyl, a'r cyfryw.

Cwest. Beth a olynnir yn y Gorchymmyn hwn?

Attab. Dywedyd y gwâr, a dim ond y gwâr, pan almer ni i dystiolacth dim am ein Cymmydog.

Tan hyn y gofynnir gennym gadw bri ac Enw da ein Cymmydog, a dywedyd yn dda am bawb, cym mheld ac y fo gwir, a chymwys, ac y gallom heb wéniaith pechadurus.

Cwest. Pa un yw'r deesed Gorchymmyn?

Attab. Na chwennych dŷ dy Gymydog, na chwennych wraig dy gymydog, na'i wasnaethwr, na'i wasnaethferch, na'i ych, na'i assyn, na dim a'r sydd eiddo dy Gymydog.

Cwest. Beth a waratunir yn v Gorchymmyn hwn?

Attab. Na wnelom cymaint a dymuno neu chwennych dim a'r sydd eiddo ein Cymmydog.

Yn y Gorchymion o'r blaen ni a warafunir i wneuthur cam a'n Cymydog, nac yn ei gorph, nac yn ei gyfoeth, nac yn ei Enw da; ymni a warafunir cymaint ac i chwennych neu ddymuno dim a'r sydd eiddo ef.

Cwest. Beth a olynnir yn v Gorchymmyn hwn?

Attab. 1. Bod ini ymfoloni a'r ein ystâd a'u cyflwr presennol, beth bynnag syddo.

Oni allwn ni chwennych dim a'r sydd eiddo arall,

wedi eu begluro:

yna yn ddiau ni a ddylem ddiweli a bodloni a'r yr hyn a ddarfu i'r Arglwydd mor rhâd a helaeth roddi ini, gan ei fôd yn ychwaneg nac y mae llawer eraill ein gwell ni yn ei fwynhâu, a llawer gwell nac yr ydym yn ei haeddu.

2. Bôd ini attal pob cefigen wrth lwyddiant ein cymydog; a nd yn bytrach llawenyd yn ei ddaioni a'i ddledwyddiwrwch ef, cystal ac yn yr eiddom ein bunain.

Yn fyrr, Summ cryno ein holl ddledswydd tuac at ein Cymydog a gynhwysir yn y ddwy Reol gvfredinol hyn. Bôd ini garu ein cymydog fel ni ein bunain. Rhuf. 13.9. Ac yno. Pa beth bynnag a fynnen i ddynion wneuthur ini, felly gwneuthur bonom ninnau iddyn hwythau yr un modd, canys byn yw'r Gyfraith a'r Prophwydi. Mat. 7. 12. Hynny yw, Summ cryno ydyw o'r hys a draddodir yn y Gyfraith a'r Prophwydi am eis a ymddygiad y naill tuac at y Hall.

Esponniad byrr o Weddi'r Arglwydd.

Cwest. PA sawl rhan sydd yn Gweddi yr Arglwydd?

Atteb. Tair. Yn gyntaf, Y Rhagymadrodd. Yn ail, Y Dymuniadau. Yn drydydd, Y Diolekgarwch.

Cwest. Ym mha eiriau y mae y Rhagymadrodd?

Atteb. Yn y geiriau byn, ein Tad yr hwn yw yn y Nefoedd.

Fe osodir allan Duw yma trwy ei Ddaioni, a'i Fawredd. Ei Ddaioni ef a arwyddir tan y teitl hwn, Tad: A'i Fawredd a osodir allan trwy ei Drigfan bennaf, yr hwn ydyw'r Nefoedd, lle yr amlygir ei Ogoniant ef mewn modd enwedigol. Y cyntaf sy'n dangos, mor barod yw Duw i wrando ac i atteb ein Gweddiau, gan ei fod yn Dâd grâsol ini yn a thrwy Jesu Christ. Y diweddaf. Mor Abl yw i ganiadhâu ac i gyflawni ein Dymuniadau, gan ei fod ef yn Arglwydd mawr y Nef a'r ddaiar. Wrth iawn-ystyried y ddau beth hyn, ni a gedwir mewna tymmer bendigedig o Hyder a Pharc, y sydd

Prif-byngeciau y fydd Ghrifianogol

ingenrheidiol iawn yn fia dyfodfa at Dduw mewn Gwedi. Fel y dylem y pryd hynny goelio fod serch tadol Duw tuac attom, fel y gallom fyned atto ef yn fwy hyderus, a phwysio arno ef a fydd gryfach am bob peth da angenrheidiol; Felly y dylem gyda phob gwylder parchedig ymostwng gar ei fron, gan ei fod ef yn y Ne-foedd, a ninnau a'r y ddaiar.

Cwest. Pa sawl Dymuniad sydd yn Gweddi'r Ar-glywydd?

Attab. *Cbwech tan rif; y tri cyntaf yn perthyn i Ogoniant Duw; a'r tri diweddaf i'n llefaad ein bunain.*

Cwest. Pa un yw'r Dymuniad cyntaf?

Attab. *Sansteiddier dy Enw.*

Cwest. Beth a ddeellir yma wrth Enw Duw?

Attab. *Dum ei bun, a pheth bynnag y mae yn ei ystyru ei bun ini trwyddo.*

Cwest. Beth a ddeellir wrth Sansteiddio Enw Duw?

Attab. *Anrhydeddu a gogoneddu Dum.*

Fel y dealom ya well lawnfwriad y Dymuniad hwn, gwybyddwn, fod Enw Duw ya cael ei Sansteiddio genym bedair ffordd.

1. Pan fo'm yn meddwl am Dduw, ac yn cydnabod ag ef, fel y datguddiodd efe ei hun yn ei Air, ei fod ef yn llawn Mawredd a Gallu, yn dragwyddol, yn gwybod y cwbl, yn bresennol ym mhob lle; ie yn anfeidrol mewn Doethineb, Sansteiddrwydd, Trugaredd, Cyflawnder, a'r cyfryw.

2. Pan fo'm yn ei Sansteiddio ef yn ein calonnau, yr hyn sydd, pan fo'm yn ei garu ef, ac yn ei ofni ef uwchlaw pawb, ac yn rhoi ein holl obaith a'n hyder arno ef uwchlaw pawb a'm gyflawni ein holl anghenion a'n diffygion.

3. Pan fo'm a'n tafodau mewn pob parch yn llefaru a'm Dduw a'i ragorol Odidowgrwydd.

4. Pan fo'm yn rhodio yn ffydd Sansteiddrwydd a chysflawnder; am hynny y dywed ein Iachawdr; Math. 5.

16. *Llewyrched felly eich goleuni ger' bren dymion, fel y gwelem eich gweinbreodd da chwi, ac y gogoneddwn eich Tadd*

yr lwn sydd yn y Nefoedd; y dangos fod Duw yn ei berchi a'i anrhydeddu gennym trwy ein buchedd dduwio a'n hymarwediad.

Cwest. Beth yr ydych yn gweddio am dano yn y Dymuniad cyntaf, Sancteiddier dy Enw?

Atteb. Bod i Dduw ym mhob petb gael ei berchi a'i anrhydeddu, gennym ni, a'i holl Greaduriaid.

Cwest. Pa un yw'r Ail Dymuniad?

Atteb. Deued dy deyrnas.

Am ddeall y geiriau hyn, rhaid ini wybod, Fod teyrnas Dduw yn ystâd, yn yr hon y mae efe fel Brenin yn rheoli; fel ym mha le bynhag ymae Arglwyddiâeth a llywodraeth Duw, yno y mae ei Deyrnas ef.

Felly mae Duw yn teyrnasu,

1. Trwy ei Allu mawr perffaith-gwbl a'r yr holl Fyd.
2. Trwy ei Râs enwedigol a'r ei Eglwys, yn ôl yr hyn y mae ei Deyrnas ef yn wahanredol. Canys,

1. Mae ganddo Deyrnas hollawl Gyffredinol, yr hon a elwir Teyrnas ei Allu ef, oblegid trwy ei Nerth a'i Allu Goruchel mae yn rheoli a'r bob math o Greaduriaid. Nid y Deyrnas hon a ddeellir yma mewn modd priodol.

2. Mae ganddo Deyrnas neillduol Briodol, trwy'r hon y mae yn teyrnasu a'r bobl neillduol didoledig, a elwir ei Eglwys ef.

Y Deyrnas neillduol hon a elwir mewn un modd Teyrnas Grâs: mewn modd arall Teyrnas Gogoniant, yr hon nid yw ond un ac unrhyw Deyrnas, wedi ei rhannu yn ddwy ran, sydd yn wahauredol yn unig o ran rhyw Amgylchiadau, megis,

1. *O ran yr Amser.* Mae Teyrnas Grâs yn y Bywyd hwn; a Theyrnas Gogoniant yn y Bywyd a ddâw.

2. *O ran y lle.* Mae Teyrnas Grâs a'r y Ddaear, a theyrnas Gogoniant yn y Nefoedd.

3. *O ran y cyflwr.* Mae Teyrnas Grâs yn rhyfela yn erbyn llawer o Elymion, o herwydd yr hyn y gelwir hi yr Eglwys yn milwrio. Mae Teyrnas Gogoniant yn gorfoedd yn y Nefoedd, ac am hynny y gelwir hi yr Eglwys yn gerfoeddu.

Try-bryngiadau y ffydd Gbrifffianogol

Awron y Deyrnas neillduol hon, fel y mae yn cynnwys yddi y ddwy ran, sef, Teyrnas Grâs a Theyrnas Gogoniant, a ddeellir yn y Dymuniad hwn.

Y gair *Dened* yn y Dymuniad sydd yn arwyddo cynnydd a Mynediad ym mlaen i berfffeithrwydd: mae'n dangos na ddæth Teyrnas neillduol Duw etto i w huchder, fel y dywedwn ni; hynny yw, nid yw etto wedi ei llwyr-gyflawni a'i pherfffeithio.

Cwest. Beth yr ydych chwi yn ei ofyn yn y Dymuniad hwn?

Attab. Ar i Eglwys Duw yn y Bîd bron gymddydu beuwydd a chael ei cbyflawni, ac fel y prysurer Teyrnas Gogoniant.

Cwest. Pa un yw'r Trydydd Dymuniad?

Attab. Dy ewylls dî a mñeler a'r y Ddaiar, megis y mae yn y Nefoedd.

Cwest. Beth yr ydych chwi yn ei ofyn yn y Dymuniad hwn?

Attab. Ar ini, ac i holl ddynien y bîd wneuthur ewyllys Duw, fel y groncir gan yr Angylion gogoneddus yn y Nefoedd.

Nid yw y gair bychan [Fel] yn y Dymuniad hwn, yn nod o gyfarfaiwrwch neu gystadledd, ord o debygoliaeth a chyff tybrywydd; Canys ni allwn ni yma gystadlu yr Angylion gogoneddus yn gwneuthur ewyllys Duw, etto ni allwn, ac a ddylem fod yn debyg iddynt yn y gwasaethi hyn. Fel y maent hwy yn gwneuthur ewyllys Duw mewn pob purdeb ac uniondeb, gan ymosgwng yn hollawl i bob rhan o hono; gan hwenychu mewn pob parodriwyd byfryd i wneuthur ei ewyllys ef; fel hefyd mewn pob Zel diuwiol gwresog; oblegid yr hyn y dywedir eu bod hwy, yn ffiam o dñ: felly y dylem nnuau geisio eu dilyn hwynt yn eia usudd-dod, gan fod hyn yn fwyd ac yn ddiod ini, sef, gwneuthur ewyllys ein Tâd nefol.

Cwest. Pa un yw'r pedwar yd Dymuniad?

Attab. Dyro ini beddyd ein bara beunyddiol.

Cwest. Beth a ddeellir vma wrth Fara?

Attab. Pob bendith amserol sydd angenbeidiol i gadw ac i gynnal y bywyd presennol hwn.

Cwest.

Wes i'r ddeunydd.
Cwest. Pa'm yr henwiniara yma, yn hytrach
nag un peth daionus arall oddiallan?

Atteb. 1. *Oblegid Basa, o'r boll fendithion oddiallan, sydd
fwyaf angenrheidiol.*

2. *I ddysgu ini gymmedrol i ein Dymuniadau o berbau
daiarol.*

Canys ni a ddysgir i chwennych *Basa*, nid soff-jeir a
phethau dainteithiol, nid cyfoeth a gormododd. Os gwyl
yr Arglwydd yn dda roddi i mewn helaethrwydd o'r pe-
thau hyn oddiallan, byddwch ddiolchgar iddo; ac iawn-
arferwch hwynt, gan roddi allan rhyw gyfran i esmwy-
thau a'r Aelodau clodion Jesu Christ, yr hyn yn wir
yw'r diolch mwyaf cymeradwy ganddo ef, *Canys a cby-
fryw ebyrb y rbyngir bodd Duw*. Heb. 13. 16.

Cwest. Beth yr ydych chwi yn ei cfyn yn y ped-
werydd Dymuniad hwn?

Atteb. *A'r i Dduw roddi ini bob bendith amserol angen-
rheidiol i'r bywyd hwn.*

Cwest. Pa'm yr ydym i weddio am fara-tros
ddiwrnod yn unig, ac nid tros Ffis, neu Flwyddyn?

Atteb. *I ddysgu ini bwys o'r Regluniaeth Duw o ddydd
i ddydd yn wasfadol.*

Ein d'lêd ni ydyw, fel i weddio a'r Dduw am bob
peth da angenrheidiol, felly i bwys o'r arno ef am gyf-
lowniad gwaftadol o honynnt.

Cwest. Pa un yw'r pummed Dymuniad?

Atteb. *Maddeu ini ein Dyledion, fel y maddeuon ninnau
i'n Dyledwyr.*

Cwest. Beth yr ydych yn ei weddio a'm dano yn
y Dymuniad hwn?

Atteb. *A'r i Dduw, er mwyn Christ, faddeu ini mor
rbâd ein boll dechdau o'n trofeddau yn ei erbyn ef, fel yr
ydym ninnau yn maddeu i'r rbai a drofeddasant yn ein berbyn
ninnau.*

Er mwyn Christ, meddaf; Canys y Maddeuant o'n pe-
chodau yr ydym ni yn ei gael, sydd yn unig er mwyn
haeddeditaeth ei Farwolaeth chwerw ef a'i Ddiode-
saint. Fe ddarfu i Jesu Christ, megis ein Meichieu ni,

trosom

bôf, mili un a wod iawn

crofom ni, ac yn ein lleoli, gymeryd arno a dioddef y wledigaeth honno oed. ddyledus ini am bechod. Ac i'r yuga fod i Dduw dderbyn hyany, megis Iawn am ein pechodau ni. Hynny a ddywed yr Apostol, Gal.3.13. *Christ a'n llwyr-brynnodd ni oddiwrth felldith y Ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith trofom.*

Cwest. Pa'm y rhoddir y geiriau hyn (Fel y maddeuwn ninnau i'n Dyledwyr) yn y Dymuniad hwn?

Atteb. 1. Megis Annogaeth i'n bannog ni i faddeu i'r rhai a wnaethant gam â ni.

Canys yr ydym yn gweddio a'r Dduw i faddeu ini, Felly, ac nid angen, nag yr ydym ninnau yn maddeu i'r rhai a wnaethant gam â ni. Oni faddeuwn ni gan hynny i eraill, yr ydym yn gweddio a'r Dduw na faddeuo ef ini, ond ein condemnio ni. Ein doethineb ni gan hynny ydyw maddeu, rhag ini, trwy naccâu a châu i fynu ein calonnau oddiwrth ein brôd yr, gâu allan Trugaredd Duw oddiwrthym ein hunain. *Canys Barn ddi-drugaredd a fydd i'r bwn ni wnaeth drugaredd. Jac. 2. 13.*

Megis Eglurbad ini o faddeuant Duw o'n pechodau a'n canweddau ni a wnaethom yn ei erbyn ef.

Canys ein maddeuant ni i'n Cymmydog sydd ffrwyth yn canlyn Cariad Duw tuac attom ni yn maddeu ein pechodau a wnaethom yn ei erbyn ef. Canys disglair belydr ydyw o'r Grâs hwnnw a'r Drugaredd a dderbyniason ni ein hunain gan yr Arglwydd. Fel y mynnem ni gan hynny gael sicrwydd o Drugaredd Duw tuac attom yn maddeu ein pechodau, byddwn barod ac ewy-llysgar i faddeu i'r rhai a wnaethant i'n herbŷn. Canys oddiwrth ein parodrwydd i faddeu iddynt hwy y gallwn brosi cariad Duw tuac attom ni yn maddeu ein pechodau a wnaethom iw erbyn, yr hyn yw ymrefymiad ein Iachawd. *Mat. 6. 14.*

Cwest. Pa un yw'r chweched Dymuniad?

Atteb. Nac arwain ni i brofedaeth, eithr gwared ni rbag drwg.

Mae'r Dymuniad hwn yn Cymchwys-ganlyn y nesaf o'r blaen; oblegid ynddo ef yr arwyddocceir, Er i Dduw

Dduw ein llawn-ryddhâu o ddiwrth euogrwydd a chaf-pedigaeth ein holl bechodusun. Isto mae arnom eisen y chwaneg o rás i'n cryfhâu i fod yn sefydlog, fel na chaffom ein goddiweddu a'n gorchfygu drachefn.

Cwest. Beth yr ydych yn ei weddio am dano yn y Dymuniad hwn?

Atteb. Ar i Dduw naill a'i ein cadw ni oddiwrth Bro-fedigaethau, a'i rhoi ini nerth iw gwrthwynebu bwynt, fel na orchfyger ni ganddynt.

Wrth brofedigaeth yma y deellir profedigaeth i bechod, yn dyfod oddiwrth Satan, y bŷd, neu'r cnawd.

Cwest. Pa'm yr arferir geiriau lliosog am lawer yn yr holl ddymuniadau a wnaun trwm ein hunaïn, megis Dyro i ni, maddeu i ni, a gwared ni?

Atteb. I ddangos y dylem ni gofio eraill yn gystal a ni ein hunain, a deisif yr un bendithion iddynt hwy ac yr ydym yn eu deisif ini ein hunain.

Trwy hyn yr ydym yn cydnabod fod Duw yn ffynnon pob bendith, yn abl i helpio pawb, ie eraill yn gystal a ninnau, yr hyn sydd barch anrhydeddus iddo ef. Ac hefyd yr ydym yn professu ein bod yn ewyllvsgar-ddymuno fod eraill yn gyfrannog o'r unrhyw fendith yr ydym yn ei deisif ini ein hunain, yr hyn sydd eglurháad nodedig, a ffrwyth rhagorol o gariad brawdol.

Cwest. Ym mha eiriau y mae ffurf y Diolchgarwch?

Atteb. Yn y rhai byn, Canys eiddot ti yr'r Deyrnas, a'r nerth, a'r Gogoniant yn oes oesoedd.

Cwest. I ba ddefnydd y gwas'naetha y ffurf hon o Ddiolchgarwch?

Atteb. I ddysgu ini chwanegu moliant a Diolch at ein Gweddiau a Dymuniadau.

Fe fydd hyn fel yn fod rhagorol i aânog Duw i barhâu ei ffâfr a'i Drugareddau ini, felly yn rhwym cadarn arno i amlhâu ei ffâfr a'i Drugareddau arnom rhag llaw. Felly y dŷn gwahanglwyfus (un or Dêg) yr hwn a drôes yn ôl i roi diolch i Dduw a'm lanhâu ei gorff-gwahanglwyfus, a dderbyniodd trwy hynny fendith a'n well.

Trif-byngcian y ffydd Christianogol.

well, sef glanhau ei enai o diwrth wahanglwyf y sprydot y pachod. *Luc. 17. 19.*

2. Mae y ffurf bon o ddiolchgarwch yn gwas naebu i roi calon yn o i ddeisif y Dymuniadau o'r blaen, trwy lawn hyder y canu ni bwyt gan yr Arglwydd.

Oblegid iddo ef ya unig y perthyn Arglwyddiaeth, nerth holl-alluog a godidowgrwydd gogoneiddus, a hynny tros Dragwyddoldeb; fel na ddylem ammeu na pharodwydd Duw i wrando, na'i allu i ganiadhau ein Dymuniadau.

Cwest. Beth y mae'r Gair AMEN a'r ddiwedd y weddi yn ei arwyddocâu?

Attab. 1. Llawn gydysyniad a'r hyn a adroddwyd o'r blaen.

2. Dymuniad gwresog a chwant i gael y petbau a weddiesen am danynt.

3. Llawn hyder ein calonau, am y petbau a ofynnasom, y canu ni bwyt gan Dduw, cym mbedded ac y bont er gogoniad Duw, a'n daioni ninnau.

John David his book
Y DIWEDD. *177*

ol
oi
er
h,
y
D-
Y-
d
n.
-
y
i-
C